# Adroddiad: Gwrandawiadau o Bell yn Dilyn Covid

Adran y Gyfraith
a Throseddeg,
Prifysgol Aberystwyth

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Bywgraffiadau'r awduron | 4 |
| Yn ôl i'r dyfodol? Ydy gwrandawiadau o bell yma i aros?<br>Ei Anrhydedd y Barnwr Milwyn Jarman CB. | 6 |
| Gwrandwadiau Tribiwnlys o Bell ar ôl Covid.<br>Y Barnwr Tribiwnlys C.N. Jones. | 10 |
| Ponciau arafu ynteu rhwystrau ffordd: ystyried agweddau barnwrol at ieithoedd heblaw Cymraeg.<br>Siân Pearce. | 16 |
| Gwrandawiadau o bell mewn llysoedd teulu.<br>Dr. Julie Doughty. | 22 |
| Theatr Ddeddfu a Gwrandawiadau o Bell.<br>C.F Huws, R.M. Jewell, H.L. Binks, L. Schwede. | 28 |
| Y Gymraeg fel Iaith y Gyfraith: Dadansoddi Deddfwriaeth Trwy'r Gymraeg, a defnyddio'r Gymraeg yn ein Llysoedd a'n Tribiwnlysoedd.<br>Owain Rhys James. | 33 |

# Rhagair

Cyflwynodd bandemic Covid 2020 a 2021 sawl her i'r system gyfreithiol, ac yn eu plith, roedd yr angen i sicrhau fod achosion llys yn gallu parhau er gwaethaf y peryglon, a'r mesurau gwarchod, a roddwyd mewn lle ar fyr rybydd. Bu peth symud tuag at wrandawiadau o bell cyn 2020, yn enwedig ar gyfer gwrandawiadau interim ar gyfer carcharorion a oedd yn y ddalfa cyn achos, ac er mwyn i groes-holi tystion bregus ddigwydd o fewn adeilad y llys, ond drwy gyswllt fideo. Yn 2020 fodd bynnag, daeth defnydd helaethach o wrandawiadau ar-lein, yn enwedig mewn materion sifil ac achosion gerbron tribiwnlysoedd.

Cyflwyna'r adroddiad hwn wahanol safbwyntiau ar effeithrwydd gwrandawiadau o bell, ac mae'r papurau yn cyflwyno gwahanol safbwyntiau gan unigolion o wahanol sectorau y system gyfreithiol, ynghyd ag academia. Traddodwyd y papurau hyn mewn cynhadledd ar-lein yn dwyn y teitl 'Dyfodol Gwrandawiadau o Bell yn Dilyn Covid' a drefnwyd gan Adran y Gyfraith a Throseddeg Prifysgol Aberystwyth ym mis Gorffennaf 2022. Gan hynny, mae'r adroddiad hwn yn cynnig blas ar brofiadau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei F/Mawrhydi, y farnwriaeth, y proffesiynau cyfreithiol ac academia, ac mae'n amlinellu rhai o'r heriau, problemau, a llwyddiannau o ddefnyddio gwrandawiadau o bell mewn achosion mewnfudo achosion yn cynnwys plant, gwrandawiadau mewn tribiwnlysoedd, ac achosion sifil a throseddol.

Serch hynny, er y bu sawl her, a materion a oedd angen cynllunio gofalus cyn gwrandawiad, roedd hefyd nifer o fanteision dros wrandawiadau o bell. Gan hynny, er na ddylai gwrandawiadau o bell ddod yn arferol mewn ymgais i arbed costau, mae sawl mantais i wrandawiadau o bell, ac ni ddylid rhagdybio mai dychwelyd i weithdrefnau cyn-Covid sydd yn angenrheidiol. Byddai sawl achos, lle mae tystion penodol megis y sawl sydd ag anawsterau symudedd neu a fyddai'n fwy cysurus yn rhoi eu tystiolaeth o gartref, a fyddai yn buddio o wrandawiadau o bell, neu wrandawiadau hybrid.

Fel y symudwn felly i gymdeithas ôl-Covid, fe ystyriwn ei fod yn werthfawr i rannu'r trafodaethau hyn, cyn i adfer gweithdrefnau cyn-Covid ddod yn anochel. Mae'r papurau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cyfleu profiadau a safbwyntiau unigolion, a ni ddylid eu hystyried fel adlewyrchiad o'r sefydliadau maent yn ran ohonynt. Serch hynny, cyflwynant safbwynt gwerthfawr ar yr addasiadau a wnaethpwyd yn ystod Covid, ac nad datrysiadau tymor byr oedd yr rhain. Serch hynny, mae sawl nodyn o rybudd – tra bo enillion o ran hygyrchedd i rai tystion a phartïon, mae hefyd colledion oherwydd y cyfyngiadau ar gyfathrebu sydd yn codi am nad yw pobol yn rhannu yr un gofod ffisegol.

Gobeithiwn felly y bydd y drafodaeth hon yn annog trafodaeth bellach ynghylch tegwch gwrandawiadau, ac addasrwydd neu anaddasrwydd gwrandawiadau o bell – er mwyn annog eu parhad mewn achosion ble byddai hynny yn fanteisiol, ac i fynnu ar wrandawiadau wyneb-yn-wyneb ble bo hynny yn angenrheidiol.

**CATRIN FFLÛR HUWS**

**Uwch ddarlithydd cyfraith, Adran y Gyfraith a Throseddeg, Prifysgol Aberystwyth, Rhagfyr, 2022.**

# Bywgraffiadau'r awduron

## Ei Anrhydedd y Barnwr Milwyn Jarman CB

Galwyd Ei Anrhydedd y Barnwr Milwyn Jarman CB i'r Bar ym 1980. Cyflawnodd ei hyfforddiant yn 9 (gynt 34) Park Place, Caerdydd, a pharhaodd i weithio o'r siambrau hynny drwy gydol ei yrfa yn y bar, gan arbenigo ym meysydd siawnsri, cynllunio a chyfraith lywodraethol. Fe'i penodwyd i Banel Cwnsel Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac fe'i benodwyd yn Gwnsler y Frenhines yn 2011. Fe'i gwnaethpwyd yn Gofiannydd Llyrs y Goron yn 2001, cofiannydd sifil yn 2004, cofiannydd teuluol yn 2006, ac yna yn Uwch Farnwr Cylchdaith (Barnwr Siawnsri Cymru) yn 2007. Y mae hefyd yn awdurdodedig i eistedd fel Dirprwy Farnwr yn Adran Mainc y Brenin, gan gynnwys y llysoedd Masnach, Technoleg, Adeiladu, a Gweinyddol. Y 2014, fe'i awdurdodwyd i eistedd yn y Llys Cynllunio. Y mae hefyd yn eistedd fel Barnwr y Tribiwnlys Uwch, yn y Siambrau Tir, Eiddo, a Threthi, a Mewnfudo a Lloches. Ef oedd Cadeirydd y panel i benodi llywydd cyntaf Tribiwnlys yr Iaith Gymraeg, gall glywed achosion yn y Gymraeg. Bellach ef yw prif Farnwr Amrywiaeth a Pherthnasau Cymdeithasol yng Nghymru. Y mae wedi bod yn farnwr tiwtor ar Seminarau Arbennigol Sifil y Coleg Barnwrol ers 2008. Roedd yn Gadeirydd Bwrdd Sylfaen Cymru'r Gyfraith o 2011-2001. Mae'n olygydd ymgynghorol ar gyfer Sweet & Maxwell Civil Procedure ac yn olygydd cyfres "Cyfraith Gyhoeddus Cymru" Gwasg Prifysgol Cymru. Y mae'n Feinciwr yn Ysbyty Gray.

## Siân Pearce

Y mae Siân Pearce (hi/nhw) yn raddedig o Brifygol Aberystwyth, a bu'n gweithio fel cyfreithwraig mewnfudo yn Ne Cymru a De Orllewin Lloegr ers bros 10 mlynedd cyn cychwyn ar ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Caerwysg.. Arbenigodd mewn gweithio gyda phlant a phobol ifainc a bydd ei doethuriaeth yn canolbwyntio ar brofiadau plant o gyngor cyfreithiol yn ymwnneud a lloches. Cyflawnodd Siân gyfres o sesiynau hyfforddi fel Rhan o Ganolfan Gyfreithiol Y Plant Cymru, Prifysgol Abertawe, ar gyfer ymarferwyr yng Nghymru yn ddiweddar sydd ym gweithio gyda phlant sydd yn cyrchu lloches a chynorthwyodd hefyd i ddrafftio canllawiau'r Ganolfan ar y sustem lloches ar gyfer plant, gofalwyr maeth, a gweithwyr cymdeithasol.

## Dr Julie Doughty

Y mae Dr Julie Doughty yn uwch-ddarlithydd yn y gyfraith ym Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd. Gynt, bu'n gweithio fel cyfreithiwr ac ar gyfer Cafcass. Ymddiddora mewn cyfraith plant a chyfraith y cyfryngau. Mae'n ymddiriedolwr The Transparency Project, sef elusen addysg gyfreithiol gyhoeddus sydd yn anelu i gwneud gyfraith teulu yn haws i'w ddeall. Yn 2021, fe'i penodwyd fel aelod academaidd y Grŵp Gweithredu Tryloywadwyedd a sefydlwyd gan Lywydd yr Adran Deulu er mwyn gweithredu'r argymhellion yn ei Adolygiad Tryloywadwyedd er mwyn sicrhau bod y llysoedd teuluol yn fwy agored.

## Dr Catrin Fflûr Huws, Dr Rhianedd Jewell, Dr Hanna Binks a Ms Leonie Schwede

Y mae Dr Catrin Fflûr Huws, uwch-ddarlithydd yn y gyfraith, Dr Rhianedd Jewell, uwchddarlithydd mewn Cymraeg Proffesiynol, a Dr Hanna Binks, darlithydd mewn Seicoleg, ill tair ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn dîm amlddisgyblaethol o ymchwilwyr sydd yn astudio cyfieithu ar y pryd, gyda phwyslais penodol ar ei ddefnydd mewn achosion llys. Ychwanegir i'r tîm hwn gan Non Humphries, myfyriwr doethuriaeth yn Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, a Leonie Schwede, myfyriwr israddedig ar gyfnod hyfforddiant yn Adran y Gyfraith a Throseddeg.

## Y Barnwr Tribiwnlys CN Jones

Y mae Y Barnwr Tribiwnlys CN Jones yn Farnwr Tribiwnlys yn y Panel Dyfarnu, y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, a'r Tribiwnlys Amaethyddol ar gyfer Cymru. Y mae hefyd yn Ombwdsmon Cyswllt ar gyfer y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol. Cyflawnodd ei hyfforddiant cyfreithiol yng nghwmni Burges Salmon, cwmni masnachol ac amaethyddol ym Mryste, cyn dychwelyd i Gymru i ddilyn gyrfa o 35 mlynedd mewn cyfraith gyhoeddus. Ei gwir hoffderau fodd bynnag yw cerddoriaeth, hanes Cymru a byd natur.

## Owain Rhys James

Brodor o Gaerdydd, astudiodd Owain y Gyfraith yn ngholeg St Catharine's, Caergrawnt cyn dychwelyd i Gaerdydd i astudio'r BPTC. Fe wnaeth ei ddisgyblaeth yn Civitas cyn ymuno fel aelod yn 2012. Mae Owain yn ymarfer yn ddwy-ieithog ac wedi ymddangos ger bron y Tribiwnlys Cyflogaeth, llysoedd Sir, yr Uchel Lys a'r Llys Apêl drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Owain yn arbenigo ym 4 meysydd cyfraith cyflogaeth; cyfraith cyhoeddus; a gwaith siawnsri/masnachol, Mae wedi ei gymeradwy yn y cyfeirlyfrau yn y meysydd hynny. Penodwyd yn Ddirprwy Farnwr y Llys Sirol yn 2020.

# YN ÔL I'R DYFODOL? YDY GWRANDAWIADAU O BELL YMA I AROS?

Ei Anrhydedd y Barnwr Milwyn Jarman CB

## RHAGYMADRODD

1. Canolbwynt y crynodeb hwn fydd y profiad a gafwyd yn y Llysoedd Busnes ac Eiddo yng Nghymru o wrandawiadau o bell yn ystod y cyfnod clo. Fi yn unig biau unrhyw farn a fynegir. Mae gwrandawiadau o bell wedi golygu nad oes tagfa arwyddocaol mewn achosion sifil yng Nghymru. Mewn achosion troseddol, mae'r sefyllfa'n fwy o her. Yn sgil yr angen i ddarparu ar gyfer rheithgorau yn ystod y cyfnod clo cafwyd problemau logistaidd sylweddol. Cafodd llysoedd Nightingale eu sefydlu mewn adeiladau cyhoeddus er mwyn caniatáu cadw pellter cymdeithasol a mesurau rhagofalus eraill.

## CYN Y PANDEMIG

2. Roedd rhaglen ddiwygio i foderneiddio gwaith y llysoedd a'r tribiwnlysoedd eisoes ar ei hanner pan ddaeth y cyfnod clo i rym. Roedd recordio gwrandawiadau ffôn yn gyffredin ers sawl blwyddyn yn achos gwrandawiadau cyfarwyddo a cheisiadau byr. Yn 2015 cafodd gweithio electronig ei dreialu mewn llysoedd busnes ac eiddo, gan ganiatáu i'r holl ddogfennau gael eu ffeilio'n electronig, gan gynnwys bwndeli prawf. Mae hyn bellach yn orfodol yn achosion y llysoedd busnes ac eiddo a llysoedd Mainc y Brenin, er nad yw'n orfodol eto yn y Llys Gweinyddol. Ers rhai blynyddoedd mae llysoedd a thribiwnlysoedd yn gwrando rhai tystion yn rhoi tystiolaeth drwy gyswllt fideo, er enghraifft y rhai sydd dros y môr neu'n sâl neu'n fregus. Roedd hyn fel arfer yn digwydd drwy bont ddiogel nad oedd bob amser yn ddibynadwy.

3. Roedd rhai gwrandawiadau'n cael eu cynnal yn gyfan gwbl drwy gyswllt fideo, er enghraifft apelau o'r tu allan i'r wlad mewn achosion mewnfudo a lloches, ac roedd rhaid ystyried tegwch cyffredinol gweithdrefn o'r fath. Cafodd y cyfle i arsylwi ar y llysoedd mewn achosion o'r fath ei oddiweddyd gan y cyfnod clo. Yn Yilmaz v Secretary of State for the Home Department [2022] EWCA Civ 300, nododd y Llys Apêl y datblygiadau mewn technoleg gan ddweud bod tribiwnlysoedd yn brofiadol wrth benderfynu'r hyn y mae tegwch yn gofyn amdano mewn achosion o'r fath

4. Roedd symud achosion yn eu blaen ar-lein drwy gyfrwng y wefan wedi cael ei dreialu ers 2017, er enghraifft hawliadau arian sifil ar-lein o lai na £10,000.

## Y CYFNOD CLO – YMATEB CYFLYM

5. Oherwydd y diwygiadau hyn yn rhannol y llwyddodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi i roi ymateb cyflym iawn i'r cyfnod clo. Ar 19 Mawrth 2020 rhoddodd yr Arglwydd Brif Ustus neges mewn perthynas â llysoedd sifil a theulu lle dywedodd fod rheidrwydd i barhau â gwaith y llysoedd fel gwasanaeth cyhoeddus hanfodol a bod y rheolau yn y llysoedd sifil a'r llysoedd teulu yn ddigon hyblyg i ganiatáu gwrandawiadau ffôn a fideo o bron popeth.

6. Dechreuodd y mwyafrif o'r barnwyr weithio gartref ar unwaith, am eu bod yn gallu gwneud hynny gyda bwndeli electronig. Lle nad oedd ond bwndel papur ar gael, bu'n rhaid danfon y rhain â llaw. Serch hynny, dychwelodd llawer o farnwyr i'r llys yn gyflym am fod hwn yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol.

## PROTOCOL (CIVIL JUSTICE: COVID-19: REMOTE HEARINGS)[2020] 1 W.L.R. 1334

7. Rhoddodd Meistr y Rholiau ganllawiau ar unwaith ar wrandawiadau o bell. Rhoddwyd canllawiau tebyg mewn awdurdodaethau eraill. Roedd yr egwyddor o gyfiawnder agored yn dal yn hollbwysig. Fel arfer, dylai gwrandawiadau o bell fod yn wrandawiadau cyhoeddus, a gellid sicrhau hynny drwy gyfleu'r fideo i ystafell y llys neu drwy ganiatáu i newyddiadurwr achrededig weld y gwrandawiad fideo neu drwy ffrydio byw.

8. Wedyn dylid caniatáu i wrandawiadau fideo gael eu recordio gan y darparwyr masnachol a gafodd eu defnyddio ar gyfer y gwrandawiad fideo. Ni châi neb arall recordio heb ganiatâd. Dylid paratoi bwndeli electronig gyda'r dogfennau hanfodol yn unig a'u hanfon i'r llys trwy Ffeil CE, rhaid eu ffeilio ar ffeil CE neu eu hanfon i'r llys trwy gyswllt ag ystafell ddata ar-lein, ebost neu eu cyflwyno i'r llys ar ffon USB.

## HERIAU

9. Roedd problemau cychwynnol yn anochel ac, o bryd i'w gilydd, fe fydd mân anawsterau wrth ddefnyddio technoleg. Dangosir enghraifft gynnar yn C (A Child) (Recusal), Re [2020] EWCA Civ 987 24 Jul 2020, lle cafodd sylwadau preifat gan y barnwr am un o'r partïon eu clywed drwy gyfrwng gliniadur y barnwr oedd wedi'i gau (ond yn dal ymlaen).

10. Dechreuodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ddefnyddio amrywiaeth o ddarparwyr masnachol ond yna symudodd i system o'r enw Cloud Video Platform (CVP) sy'n fwy diogel ac yn rhoi mwy o reolaeth i'r llys. Cafodd mwy o staff eu recriwtio a'u hyfforddi i ddefnyddio'r system hon.

11. Un o heriau gwrandawiad o bell yw y gall roi argraff o anffurfioldeb. Ymdrinnir â hyn drwy atgoffa pawb eu bod yn dal mewn ystafell llys, er eu bod gartref o bosibl.

12. Roedd pryder arall ar y dechrau yn ymwneud â phartïon neu dystion heb sgiliau neu offer TG. Roedd hyn yn aml yn cael ei gynnig fel rheswm gan bartïon oedd yn gofyn am ohiriad nes y gellid trefnu gwrandawiad wyneb yn wyneb. Er hynny, cafodd y rhan fwyaf o'r pryderon hyn eu hateb drwy gymorth a roddid gan gyfreithwyr neu eraill.

13. Roedd asesu hygrededd hefyd yn cael ei gynnig gan geiswyr fel rheswm dros ohirio achosion, yn enwedig lle'r oedd materion gonestrwydd yn ganolog. Derbynnir yn gyffredinol bellach fod gweld tyst yn rhoi tystiolaeth yn aml yn ffordd annibynadwy ohono'i hun i brofi geirwiredd a'i bod yn bwysig ystyried dogfennau cyfoes a thebygolrwydd cynhenid, (gweler Leggatt LJ (fel yr oedd bryd hynny) yn R (on the application of SS (Sri Lanka) v Secretary of State for the Home Department [2018] EWCA Civ 1391).

14. Roedd achosion lle roedd angen cyfieithwyr yn aml yn arwain at anawsterau pan oedden nhw mewn ystafell wahanol i'r rhai roedden nhw'n cyfieithu ar eu rhan, megis siarad dros ei gilydd. Mae'n well os gellir trefnu bod y ddau yn yr un ystafell, er nad yw hyn bob amser yn ymarferol.

15. Weithiau dywedir bod cymryd cyfarwyddiadau ar fore'r achos neu yn ystod y bore, neu negodi ar y bore, yn broblematig mewn gwrandawiad o bell. Gellir osgoi hyn ran amlaf drwy beidio â gadael hyn i'r funud olaf. Os oes angen gwneud hyn ar y diwrnod yna mae modd rhoi amser i hyn gael ei wneud yn electronig neu dros y ffôn neu drwy'r system CVP gyda'r barnwr yn ymadael am gyfnod byr.

16. Nid yw bwndeli electronig bob amser yn hawdd eu defnyddio. Yn TPS Investments (UK) Ltd (In Administration), Re [2020] EWHC 1135 (Ch) 11 May 2020, nododd HHJ Hodge CB ganllawiau, gan gynnwys ymgysylltu â'r eiriolwr a oedd i gynnal y gwrandawiad ynghylch pa ddogfennau y dylai'r bwndel eu cynnwys, a mynegai chwiliadwy neu o leiaf rhifo'r tudalennau mewn dilyniant.

## CYFLEOEDD

17. Mantais amlycaf gwrandawiadau o bell yw arbed costau a'r cynnydd mewn effeithlonrwydd. Gall cyfreithwyr ddelio â sawl gwrandawiad byr mewn un diwrnod sydd efallai'n amhosibl os yw'r gwrandawiadau mewn lleoedd gwahanol. Gall tystiolaeth arbenigol fod yn arbennig o addas trwy ddulliau o bell heb gost ac anghyfleustra dod i'r llys.

18. Un fantais wirioneddol arall yw gallu tystion sy'n sâl neu'n fregus neu dros y môr i roi tystiolaeth o bell.

19. Erbyn hyn mae'n glir y gall gwrandawiadau o bell hybu mynediad at gyfiawnder. Yn Court of Protection [2022 ] EWCOP 5, 2022 WL 00413234 dywedodd Hayden J, Is-lywydd y Llys Gwarchod, fod barnwyr, mewn achosion o'r fath, wedi gwneud ymweliadau o bell â chartrefi gofal i gyfarfod â'r claf a bod rhai cleifion wedi llwyddo i ddod i wrandawiadau o bell lle na fyddai presenoldeb mewn ystafell llys wedi bod yn bosibl.

20. Yn ystod yr amser ers i wrandawiadau o bell gael eu cynnal am y tro cyntaf oherwydd y cyfnod clo, cafwyd gwelliannau arwyddocaol yn y dechnoleg a rhagwelir mwy o welliant hefyd.

## Y SEFYLLFA BRESENNOL

21. Y sefyllfa ddiofyn erbyn hyn yw bod modd i unrhyw wrandawiad o hanner dydd neu lai nad yw'n cynnwys tystiolaeth lafar gael ei gynnal o bell: The Chancery Guide. Dylai gwrandawiadau hirach na hyn gael eu cynnal yn bersonol oni bai bod rhesymau da dros eu gwrando o bell yn llawn neu'n rhannol: United Technology Holdings Ltd v Chaffe [2022] EWHC 151 (Comm) HHJ Pelling CB: Jackson v Hayes a Jarvis (Travel) Ltd [2022] EWHC 453 (QB) Eady J.

22. Gall salwch tyst sy'n cael ei ategu gan dystiolaeth feddygol fod yn rheswm da; gweler Rahbarpoor v Said [2021] EWHC 3319 (Ch) Clare Ambrose fel barnwr i'r Uchel Lys.

23. Mae llysoedd a thribiwnlysoedd bellach yn gallu rhoi cyfarwyddiadau i ganiatáu arsylwi o bell ar wrandawiadau wyneb yn wyneb a hybrid yn ogystal â mynediad at wrandawiadau cwbl bell – adran 85A o Ddeddf Llysoedd 2003 fel y'i mewnosodwyd gan adran 198 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022. Mae'r drefn yn cael ei rhoi ar waith gan Reoliadau Arsylwi a Recordio o Bell (Llysoedd a Thribiwnlysoedd) 2022.

24. Cafodd Hawliadau Iawndal Ar-lein eu gwneud yn orfodol i hawlwyr sydd â chynrychiolydd cyfreithiol ar 2 Ebrill 2022.

## Y DYFODOL

25. Mae'r prosiect diwygio i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth y flwyddyn nesaf.

26. Mae'r systemau hawliadau ar-lein yn ehangu. Mae'r cynllun newydd, Hawliadau Arian Ar-lein, yn caniatáu i hawliadau ariannol o hyd at £10,000 gael eu prosesu ar-lein. Mae Hawliadau Meddiant Ar-lein yn darparu proses debyg ar gyfer hawlio meddiant eiddo lle mae yna ôl-ddyledion rhent neu daliadau morgais.

27. Wrth i'r dechnoleg wella mae'n debygol y bydd mwy o wrandawiadau o bell, yn enwedig mewn materion byr neu achosion lle nad oes tystiolaeth, er enghraifft achosion adolygiad barnwrol, yn enwedig yn y cyfnod adnewyddu llafar.

28. Mae'n debygol mai gwrandawiadau wyneb yn wyneb fydd y sefyllfa ddiofyn o hyd mewn gwrandawiadau mwy sylweddol.

**MILWYN JARMAN**

**Tachwedd 2022**

# GWRANDAWIADAU TRIBIWNLYS O BELL AR ÔL COVID

Y Barnwr Tribiwnlys CN Jones

## RHAGYMADRODD

Rydyn ni'n gyfarwydd â'r trosiad '*Mae olwynion cyfiawnder yn troi'n araf ond yn malu'n fân'.* Fel arfer mae newid deddfwriaeth yn cymryd llawer iawn o amser ac mae rheoliadau'n cael eu drafftio â'r manylder biwrocrataidd anochel, gan gynnwys rhwystrau a gwrthbwysau mewnol.

Ym mis Mawrth 2020, dyma bopeth yn newid. Allen ni byth fod wedi rhag-weld graddfa a chyflymder y newid a gafwyd oherwydd Covid-19. O safbwynt hawliau sifil, pwy fyddai wedi rhag-weld y bydden ni, o fewn ychydig wythnosau, yn derbyn na chaen ni adael ein cartrefi heblaw at ddibenion penodedig, cael ein gwahardd rhag gyrru i'n hoff fannau cerdded a chael gyrru ychydig filltiroedd yn unig i brynu hanfodion, (a hynny er bod ein siop agosaf yng nghefn gwlad Cymru 20 milltir i ffwrdd o bosibl)? '*Aros gartref. Diogelu'r GIG. Achub bywydau'* oedd ein realiti newydd.

Cafodd deddfwriaeth frys ei rhoi ar waith fel cath i gythraul. Cyhoeddodd yr Arglwydd Brif Ustus ar 17 Mawrth 2020 ei bod hi'n afrealistig y gallai busnes barhau yr un fath ag arfer o ran y llysoedd. Serch hynny, fe eglurodd: '*it is of vital importance that the administration of justice does not grind to a halt,'* gan bwysleisio '*access to justice will become a mirage'* heb wrandawiadau.

Erbyn canol mis Mawrth 2020, roedd Tribiwnlysoedd eisoes yn cael ymholiadau gan bartïon i achosion yn mynegi pryderon am y feirws a'r goblygiadau iddyn nhw eu hunain ac i'w hanwyliaid. Daeth yn amlwg y byddai llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraeth Cymru yn mynd ati cyn hir i gyflwyno cyfyngiadau pellach ar symudiadau a chynulliadau. Pe bai gwrandawiadau corfforol yn parhau, a fyddai aelodau'r Tribiwnlysoedd yn iach ac yn gallu teithio a chymryd rhan (ac a gaen nhw ganiatâd i wneud hynny)? Roedd yna hefyd y cwestiwn o argaeledd lleoliadau ar gyfer gwrandawiadau fel gwestai ac ystafelloedd digwyddiadau. Yn wreiddiol penderfynwyd gohirio gwrandawiadau am fod yna lawer o ansicrwydd, ond cyn hir cafodd mesurau arloesol eu mabwysiadu er mwyn cadw olwynion cyfiawnder yn symud.

## PROTOCOLAU AC ARFERION

Cyn y pandemig, roedd cynigion wedi bod ynglŷn â thrawsnewid Tribiwnlysoedd Cymru, ac fe barhaodd y gwaith hwnnw dros y cyfnod clo. Er hynny, wnaeth y canlyniadau ddim cyrraedd mewn pryd i helpu gyda dull cyfunol a chanllawiau cyffredin o ran gwrandawiadau o bell. Er hynny, fe sicrhaodd y pandemig fod pethau na ellid eu hystyried o'r blaen erbyn hyn yn angenrheidiol ac fe gafodd y patrwm ei newid i wrandawiadau o bell. Dechreuodd barnwyr arddel yr agwedd mai gwrandawiadau o bell oedd y sefyllfa ddiofyn a hynny er mwyn sicrhau darpariaeth barhaus o ran mynediad at gyfiawnder a datrys anghydfodau.

Daeth yn amlwg na fyddai'r pandemig yn dod i ben yn gyflym, a bod rhaid i bob Llys a Thribiwnlys ystyried sut i ddelio â'r hyn oedd, heb os, yn dagfa gynyddol o achosion. Yng nghyd-destun y Tribiwnlys, arweiniodd hyn at ddrafftio Protocolau yn gyflym i ganiatáu i faterion o sylwedd gael eu gwrando o bell. Bu'r newid yn sydyn ac yn chwyldroadol ac roedd yn gofyn am ffordd newydd o feddwl.

Bu'n rhaid i'r Tribiwnlysoedd bennu cynnwys y Protocolau heb yr ymarferion ymgynghori manwl a hir arferol gyda chydweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Bu'n rhaid i Lywydd pob Tribiwnlys ystyried eu cyd-destunau statudol a rheoleiddiol penodol a'u Protocolau drafft yn gyflym. O reidrwydd, cafodd y rhain eu datblygu mewn ffyrdd *ad hoc* oherwydd yr amrywiaeth yn y dechnoleg a oedd eisoes ar gael ond hefyd oherwydd y fframweithiau cyfreithiol gwaelodol gwahanol iawn. Yr hyn oedd ganddyn nhw i gyd yn gyffredin oedd yr egwyddor na ddylid aberthu tegwch er lles hwylustod.

Roedd y Protocolau'n darparu canllawiau synnwyr cyffredin, cam wrth gam. Roedd y rhain yn *aide-memoires* hynod ddefnyddiol mewn tiriogaeth anghyfarwydd a chât'r partïon eu cyfeirio at y rhain cyn gwrandawiadau. At ei gilydd, roedd y rhai a oedd yn rhan o'r digwyddiad wedi paratoi'n dda ac yn gyffyrddus â'r dechnoleg cyn y gwrandawiad. Yr hyn y dylwn ei ddweud yw hyn: roedd rhai fforymau'n ddi-bapur eisoes cyn y pandemig ac fe wnaeth hynny leddfu'r newid i wrandawiadau o bell.

Ar ôl y pwl cychwynnol o ddiddordeb ymysg y cyhoedd a'r wasg o ran sut byddai gwrandawiadau o bell yn gweithio'n ymarferol, yn gyflym iawn fe ddychwelodd y Tribiwnlys at rywbeth agos at '*fusnes fel arfer*' a hynny heb ddrama. Er enghraifft, lle roedd angen arolygiadau safle mewn rhai Tribiwnlysoedd, daeth ymweliadau gan y syrfëwr yn unig yn norm, a hwnnw'n adrodd yn ôl ac yn defnyddio adroddiadau ffotograffig a fideo yn ôl yr angen.

Fe lwyddodd y protocolau i rag-weld a gwaredu llawer o broblemau disgwyliedig. Bu'r rhai a ddaeth gerbron y Tribiwnlysoedd yn gweithredu fel arfer yn aeddfed a phragmatig ac roedden nhw'n awyddus i sicrhau bod gwrandawiadau o bell yn gweithio ar sail yr hyn oedd, heb os, yn broses amherffaith. Yn syml iawn, roedd ar y mwyafrif o Geiswyr ac Ymatebwyr eisiau bwrw ymlaen â gweld eu hachosion yn cael eu gwrando.

## MANTEISION AC ANFANTEISION GWRANDAWIADAU O BELL

Mae'r manteision yn llawer mwy niferus na'r anfanteision yng nghyd-destun Tribiwnlys ar sail fy arsylwadau i dros y ddwy flynedd diwethaf. Er hynny, fe ddechreua i â'r **ANFANTEISION** a hynny dan dri phennawd bras fel a ganlyn:

### 1. Methiannau yn y dechnoleg

Roedd un pryder sylfaenol yn ymwneud ag allgáu digidol, sef cau allan y rhai oedd yn methu cael mynediad at dechnoleg, hyd yn oed technoleg amherffaith, i ganiatáu presenoldeb o bell. Wrth gwrs, mae yna gwestiwn llawer ehangach a ydy pobl hŷn, pobl fregus neu bobl anymwthgar ac yn wir pobl sydd wedi'u datgysylltu yn teimlo'n syml nad ydyn nhw'n gallu cymryd rhan yn y system gyfiawnder o gwbl, boed hynny drwy bresenoldeb corfforol neu o bell. Dyna'r cwestiwn ehangach ar gyfer diwrnod arall, ond mae yna obaith y gall technoleg yn y dyfodol ac adnoddau cyfreithiol sy'n cael eu hariannu yn y dyfodol helpu'r llu o unigolion anweledig sy ddim yn ceisio cyfiawnder drwy'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd ar hyn o bryd.

Roedd gwell cyfarwyddineb â gwrandawiadau o bell ymysg Aelodau a staff y Tribiwnlys yn sicr yn golygu bod yna lai o fân anawsterau fel cysylltedd wrth i amser fynd yn ei flaen. Er hynny, mae methiant yn y dechnoleg wedi bod yn un o'r nodweddion mwyaf rhwystredig ynglŷn â gwrandawiadau o bell. Mae cysylltiad yn diflannu neu'n rhewi wedi bod yn broblem. Y math o anhawster sy'n codi yw lle roedd partïon, eiriolwyr neu Aelodau'r Tribiwnlys yn gweld gwaith annisgwyl yn cael ei wneud gan eu cyflenwyr rhyngrwyd neu eu cyflenwyr cyfleustodau a bod rhaid i'r unigolion adleoli neu ddefnyddio

technoleg amgen ar rybudd byr iawn. Mae'n eglur y gall gohirio gwrandawiadau oherwydd methiant technoleg achosi oedi, straen ac anghyfleustra i bawb.

Yr hyn y mae angen inni warchod rhagddo hefyd yw caniatáu i faterion technegol effeithio ar berfformiad neu ganolbwyntio, neu ganiatáu iddyn nhw dynnu sylw a thynnu oddi ar y mater sydd i'w ddyfarnu. Mae angen hefyd inni sicrhau bod y partïon yn teimlo eu bod nhw'n rhan o bethau drwyddi draw ac mae hyn yn cysylltu ag ystyriaethau Erthygl 6.

Yn anffodus, mae presenoldeb o bell wedi rhoi esgusodion ar adegau i bartïon beidio ag ymddangos mewn gwrandawiad ac mae hyn wedi bod yn wir am Ymatebwyr, Ceiswyr a Thystion fel ei gilydd. Er mwyn ail-greu lleoliad y llys, mae angen inni fod yn ymwybodol y dylai pawb sy'n rhan o'r digwyddiad allu gweld a chlywed ei gilydd yn ddelfrydol.

Heb os, mae diffyg cyfarwyddineb â thechnoleg yn her, nid yn gymaint i aelodau'r Tribiwnlys eu hunain erbyn hyn, ond i bartïon sy'n dod ar draws ei gilydd am y tro cyntaf. Mae materion technoleg wedi golygu bod gwrandawiadau o bell yn ddieithriad yn cymryd mwy o amser. Nid yn unig mae angen amynedd a'r gallu i ddelio â'r annisgwyl, ond oherwydd natur cyfarfodydd ar-lein, mae angen seibiau yn amlach ar bob unigolyn sy'n rhan o wrandawiad er mwyn parhau i ganolbwyntio ac mae angen i Farnwr y Tribiwnlys gynnwys y rhain yn yr amserlen.

## 2. Colli ffurfioldeb/cyswllt

Mae pryder wedi'i fynegi ynghylch colli difrifoldeb a ffurfioldeb achosion a'r gallu i arsylwi'n llawn ar gyfathrebiadau dynol cymhleth ac aml-haen.

Roedd pryder wedi bod hefyd y gallai Barnwr a Chlercod y Tribiwnlys golli rheolaeth dros yr ystafell. Er hynny, fy mhrofiad i yw bod ymddygiad ar y cyfan wedi gwella yn hytrach na dirywio. Byddai'r cwestiwn a yw hyn yn digwydd am fod yr amgylchedd yn llai dychrynllyd, estron, gelyniaethus a brawychus, yn ddarn diddorol o ymchwil. Efallai ei bod yn wir bod lluniau agos o'r partïon ac o Aelodau'r Tribiwnlys yn gwneud pawb yn fwy hunanymwybodol o ran eu pryd a'u gwedd a'u hymarweddiad ac ychydig yn fwy gofalus o ganlyniad.

Er hynny, os bydd unigolyn yn mynd yn sâl, oherwydd y lluniau anghyffyrddus o agos sydd gennyn ni o'n gilydd weithiau ar lwyfannau o bell, mae'r embaras posibl yn fwy, er ein bod yn derbyn y gall hyn ddigwydd yr un mor hawdd mewn lleoliad corfforol.

O ran yr elfen ddynol, rwy'n credu y byddwn ni i gyd yn cytuno ei bod hi'n llawer mwy anodd adeiladu cydberthynas â chleientau o bell. Fydd sgyrsiau anghydffurfiol gyda'r ochr arall ddim yn digwydd yn naturiol mewn gwrandawiadau o bell ac felly mae'r potensial i ddatrys materion cyn y gwrandawiad yn llai. Fel yn achos ymchwil cydweithwyr yn adran CThEF, efallai bod rhai Barnwyr yn gweld gwrandawiadau o bell yn fwy blinderus, yn colli'r cydadweithio yn y llys ac yn gweld y ffiniau gwaith/cartref yn fwy o her.

## 3. Sicrhau Tegwch (Osgoi Heriau Erthygl 6 Posibl)

Un o egwyddorion sylfaenol yr ECHR yw bod gan bob unigolyn hawl i gael gwrandawiad teg a chyhoeddus. Mae'n bwysig bod barn y partïon yn cael ei hystyried yn llawn ar y cwestiwn a all gwrandawiad o bell gyflawni egwyddorion Erthygl 6 o dan amgylchiadau penodol yr achos hwnnw.

Drwy gydol yr amser mewn gwrandawiadau o bell, mae angen hefyd inni fod yn effro'n gyson er mwyn sicrhau nad yw mympwyon presenoldeb o bell yn arwain at sefyllfa sy'n peryglu tegwch neu gyfiawnder naturiol. Mae'n amlwg na fyddai gwrandawiad o bell yn deg pe bai un parti'n methu cael mynediad neu'n methu ymgysylltu'n effeithiol drwy'r dechnoleg a ddewiswyd. Fe allai ymgyfreithwyr drostynt eu hunain gael eu gadael ar ôl hefyd yn ystod dadleuon cyfreithiol ac fe allai hyn fod yn llai amlwg ar gyswllt o bell na phe baen nhw'n bresennol yn gorfforol.

Un pryder arall sydd wedi'i godi yw, pan fo yna dystiolaeth groes gan dystion, y gall fod yn anodd asesu ymarweddiad y tystion ac adweithiau'r barnwr. Yr wrth-ddadl yw y dylen ni ddiystyru ymddygiad y tystion yn yr hyn sy'n debygol o fod yn amgylchedd gwrandawiad estron i lawer o dystion, a bod angen gofal bob amser er mwyn osgoi 'rhagfarn ddiarwybod'. Ond mae'n anochel bod rhywbeth yn cael ei golli yn y broses gyfathrebu naturiol heb gyfarfod wyneb yn wyneb. Mewn un achos cyfraith deuluol yn ddiweddar, fe ofynnodd un fam, sef ymgyfreithiwr drosti'i hun, yn blwmp ac yn blaen i'r barnwr: '*Ydych chi'n mynd i dynnu fy mhlentyn oddi wrtha i ar iPad?'* Fe gytunodd y barnwr i ddod o hyd i lys addas a chynnal gwrandawiad corfforol yn lle un o bell.

Un gair olaf ar Erthygl 6: mae'n sicr bod gwrandawiadau o bell yn gosod gofynion ychwanegol ar bawb, ac mae'n rhaid inni sicrhau nad yw'r baich ychwanegol hwn yn peryglu tegwch. Er hynny, ar yr amod bod gofal digonol yn cael ei gymryd, does dim rheswm pam na all gwrandawiad o bell fod yn deg.

Rwy'n troi nawr at y **MANTEISION** o dan ddau bennawd bras fel a ganlyn:

## 1. Hygyrchedd cyfiawnder

Mewn rhai ffyrdd, dyma'r ochr arall i'r geiniog colli ffurfioldeb mewn achosion Tribiwnlys. Efallai bod llawer os nad y rhan fwyaf o bobl ac yn enwedig pobl iau yn teimlo'n gyffyrddus iawn ac yn cyfathrebu'n naturiol trwy ddulliau o bell. Er y gall pob achos llys a thribiwnlys fod yn frawychus iawn, fe allen nhw deimlo llai o fraw a llwyddo i gyflwyno'u tystiolaeth yn well o amgylchedd y cartref, waeth pa mor amherffaith y bo, yn hytrach nag mewn Llys ffurfiol neu mewn cyfarfod a fydd yn cael ei weld fel byd y cyfreithwyr a'r Barnwyr. Efallai bod hyn yn wir hefyd i raddau i'r bobl hŷn a'r bobl fregus y mae'n ddigon tebygol eu bod yn teimlo'n fwy diogel gartref oherwydd risgiau Covid.

Mae cyflwyniad ffurfiol a rheolau sylfaenol y gwrandawiad gan Farnwr y Tribiwnlys a gosod naws y gwrandawiad mewn modd priodol yn sicr yn helpu partïon sy'n newydd i wrandawiadau o bell fel eu bod yn teimlo'n gyffyrddus ac yn deall sut y bydd pethau'n mynd ymlaen. Mae angen i'r partïon gael gwybod y cân nhw gyfle llawn i siarad ar yr adeg iawn yn yr achos. Hefyd, mae'n bwysig bod pawb yn deall pryd y bydd seibiau'n digwydd ac y caiff y partïon ofyn unrhyw bryd am saib ac am siarad â'u heiriolwr os oes angen hynny.

## 2. Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon

Mae'n anochel bod y pandemig wedi gwneud i bawb ailfeddwl atebion. Efallai y byddwn ni'n gofyn pa bris cyfiawnder? Ond, os gallwn ni gyflawni'r un lefel o gyfiawnder am ffracsiwn yn unig o'r gost, yna mae'n drafodaeth y mae angen inni ei chael. Yn sicr, bydd llawer o Dribiwnlysoedd wedi gwneud arbedion sylweddol iawn trwy beidio â chynnal gwrandawiadau corfforol gyda'r costau dilynol o ran gwestai, costau teithio a chostau cynhaliaeth i aelodau'r Tribiwnlys.

Mae'n anochel y bydd angen rywbryd i asiantaethau gydlynu adnoddau a chydweithredu i ystyried rhesymoli adeiladau cyhoeddus drwyddi draw. Nid peth newydd yw hyn ac fe awgrymwyd er enghraifft y gellid gofyn i'r awdurdodau lleol drefnu mannau lle gall ymgyfreithwyr gyrchu gwrandawiadau o bell.

Mae'r heriau ynglŷn â chyfiawnder yng nghefn gwlad wedi bod yn destun cryn drafod o'r fath. Rydyn ni'n gofyn tybed a ydy hi'n deg i ddinasyddion gwledig orfod teithio 20 neu 30 milltir i'w banc agosaf neu 60 milltir i'r ysbyty. Yn yr un modd mae angen inni ofyn a ydy hi'n deg gorfod teithio pellteroedd tebyg i sicrhau 'cyfiawnder lleol' yn enwedig pan fo trafnidiaeth gyhoeddus wledig yn dameidiog neu ddim yn bodoli. Rhan yn unig o'r ateb yw presenoldeb mewn gwrandawiadau o bell gan nad oes dim byd yn well na bod yn bresennol yn gorfforol yn y llys o dan amgylchiadau penodol.

Heb os, fe lwyddodd gwrandawiadau o bell i gadw olwynion cyfiawnder yn troi ar adeg na welwyd ei thebyg o'r blaen, ac yn sicr fe lwyddodd gwrandawiadau o bell i sicrhau bod tagfeydd posibl wedi'u trin a'u trafod ac fe allen nhw chwarae rhan wrth leihau'r baich ar y system llysoedd a thribiwnlysoedd yn

y dyfodol. Mae’n bosibl na welodd partïon ac eiriolwyr eisiau amser teithio ac aros, ynghyd â’r costau sy’n dod yn sgil y rheiny, amser i ffwrdd o’r gwaith a’r gofal plant sy’n angenrheidiol er mwyn bod yn bresennol mewn gwrandawiadau corfforol.

## CASGLIADAU

Yn fyr, mae’n ddigon posibl ein bod wedi cyrraedd cyfnod lle gwrandawiadau o bell fydd y sefyllfa ddiofyn ar gyfer mathau penodol o wrandawiadau.

Ar ôl y cwrs carlam a gawson ni i gyd yn y pandemig, rwy’n weddol sicr bod gwrandawiadau o bell yma i aros erbyn hyn yng nghyd-destun y Tribiwnlysoedd. Dyma fydd yr ateb rhesymegol ar gyfer Gwrandawiadau Cyfarwyddiadau a Gwrandawiadau Rheoli Achos, Adolygiadau Cyn Gwrandawiad ac ar gyfer llawer o Wrandawiadau Terfynol, yn enwedig pan fo’r materion allweddol yn canolbwyntio ar dystiolaeth ddogfennol, tystiolaeth arbenigwyr a chyflwyniadau cyfreithiol. Mae’n amlwg nad yw presenoldeb o bell yn gwbl berffaith, ond rydyn ni i gyd yn dysgu a gobeithio yn gwella.

Yn y tymor byr i’r tymor canolig, mae’n bosibl y bydd galw o hyd am wrandawiadau corfforol mewn Tribiwnlysoedd Disgyblu a Chyflogaeth ac mewn Tribiwnlysoedd eraill lle ceir tystiolaeth groes gan y tystion neu lle ceir tystion bregus a lle mae angen mesurau arbennig neu gyfieithwyr neu gyfieithwyr ar y pryd. Serch hynny, yn y pen draw mae’n synhwyrol i’r penderfyniad a ddylai gwrandawiad gael ei gynnal o bell ynteu wyneb yn wyneb, gael ei adael i brofiad ac arbenigedd y barnwr yn y maes penodol.

A ddylai gwrandawiadau o bell barhau ar ôl Covid yng nghyd-destun y Tribiwnlys? Fy marn bersonol i yw y dylen nhw, ac y dylen nhw gael eu hybu, eu hymestyn a’u cofleidio lle bo modd, gyda’r mesurau diogelu sydd wedi datblygu’n gyflym. Os gall presenoldeb o bell weithio mewn unrhyw le, yna cyd-destun y Tribiwnlysoedd yw hwnnw. Mae Tribiwnlysoedd wedi’u bwriadu i ddarparu dull cyflym, cost-effeithiol a chymesur o gael mynediad at gyfiawnder, dyfarnu ar faterion rheoleiddiol a datrys anghydfodau rhwng partïon heb ragdybio bod rhaid cael cynrychiolwyr. O safbwynt cynaliadwyedd, mae’n ddigon posibl mai cyfarfodydd o bell fydd y sefyllfa ddiofyn yn y gyfraith, mewn busnes, mewn gwasanaeth cyhoeddus ac yn ein bywyd beunyddiol, ar yr amod hollbwysig bod rhaid iddyn nhw gadw cyfiawnder a rheol y gyfraith.

Yn y pen draw, fe allai gwrandawiadau o bell chwarae rhyw ran fach ond pwysig wrth ddechrau mynd i’r afael ag argyfwng mynediad at gyfiawnder. Mae’n bosibl y byddan nhw’n lleihau’r pwysau ar rai rhannau o’r system gyfiawnder drwy ddatrys anghydfodau ar y lefel gywir, gyda’r arbenigedd cywir mewn meysydd penodol o’r gyfraith, ond hefyd drwy adeiladu capasiti. O’u trafod yn dda, fe allen nhw helpu i wella profiad y partïon a’r tystion yn y system gyfiawnder.

Er hynny, mae’r her yn parhau nad ‘cartref’ o reidrwydd yw’r amgylchedd gorau i farnu, cynrychioli neu fod yn barti mewn achos. Nid pawb sy’n byw mewn amgylchedd cyffyrddus, tawel. Gall fod rhaid i unigolion jyglo gofal am blant neu rieni oedrannus gartref heb gefnogaeth ac ar adegau yr opsiwn o orfod teithio i’r llys i gymryd rhan mewn achos neu wrando achos yw’r opsiwn gorau.

Rhywbeth arall sydd hefyd wedi’i golli yn ystod y pandemig yw’r cynildeb, yr arwyddion di-eiriau a’r manion yn y cysylltiadau rhwng pobl. Mae gormod o enghreifftiau o gyfathrebu o bell yn drwsgl, ac yn ansensitif drwy negeseuon e-bost a chyfryngau cymdeithasol sy’n arwain at wrthdaro a chamddeall, boed yn y cyd-destun cyfreithiol neu fel arall. Yr hyn sy’n cael ei golli hefyd yw budd enfawr y sgyrsiau yn yr ystafell wisgo a’r ffreutur sydd o bosibl yn llai gochelgar a lle gall cyfleoedd godi ar gyfer setliad priodol.

I orffen ar nodyn cadarnhaol, mae'n gyfnod a allai fod yn gyffrous i'r gyfraith a chyfiawnder yng Nghymru ac mae cyfleoedd yn ogystal â bygythiadau'n dod i'r amlwg o'n profiad dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf. Mae ymchwil Llywodraeth Cymru'n cyfeirio at yr angen am werthusiad cadarn o ganlyniadau gwrandawiadau ar-lein ac at y risg na fydd y system gyfiawnder ar-lein sydd wrthi'n datblygu yn cynnig cyfiawnder cydradd i bawb. Fe allai hyn fod yn wir ond fe allai'r gwrthwyneb fod yn wir hefyd. Gallai ymchwil ddatgelu bod cyfiawnder yn dod yn fwy hygyrch i bawb trwy ddulliau o bell os yw'n cael ei gefnogi a'i hybu'n iawn.

Rhan o'n natur ni yw dymuno parhau â'r *status quo* yn hytrach na chofleidio'r dyfodol. Er hynny, y gwir amdani yw bod ein plant a'n hwyrion wedi'u cyflyru i gael eu haddysgu o bell. Mae'r rhai sydd newydd sefyll eu harholiadau TGAU, Lefel A neu eu harholiadau terfynol yn y brifysgol wedi treulio mwy o amser cyn yr arholiadau hynny yn dysgu o bell nag yn dysgu wyneb yn wyneb. Bydd llawer o'u gweithgarwch cymdeithasol nhw hefyd wedi digwydd ac yn dal i ddigwydd o bell. Bydd llawer ohonon ni'n gweld y syniad hwnnw'n ddiflas ond dyma'r realiti newydd, ac efallai y bydd y to sy'n codi yn disgwyl cyfiawnder ar-lein yn yr un modd ag maen nhw wedi dod i ddisgwyl addysg, bancio, adloniant ac amgylcheddau gwaith ar-lein.

I gloi, fy marn bersonol i, ac nid barn y Tribiwnlysoedd rwy'n eistedd arnyn nhw, yw bod angen inni gofleidio'r newid a gafodd ei wthio arnon ni i ddechrau, a manteisio ar y cyfle yma i gofleidio ac atgyfnerthu'n defnydd o dechnoleg a ffyrdd newydd o weithio, gan lynu yr un pryd at yr egwyddor ganolog o sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei wneud ac yn cael ei weld yn cael ei wneud.

**Y BARNWR TRIBIWNLYS CN JONES**

# PONCIAU ARAFU YNTEU RHWYSTRAU FFORDD. YSTYRIED AGWEDDAU BARNWROL AT IEITHOEDD HEBLAW CYMRAEG.

Siân Pearce

Mae'r papur hwn yn ystyried rhai o'r materion sy'n codi o ddefnyddio cyfieithwyr yng ngwrandawiadau Siambr Fewnfudo Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, gan gyfeirio'n benodol at Apelau Lloches, gan dynnu ar ymchwil a phrofiad yr awdur ei hun fel cyfreithiwr sy'n gweithio ym maes mewnfudo. Edrychir ar rai o'r materion sy'n codi pan ddefnyddir cyfieithwyr yn y Tribiwnlys, gan gymryd fel man cychwyn yr *Equal Treatment Bench Book* (argraffiad 2021), a gofyn a ddylai'r materion hyn gael eu gweld fel 'ponciau' gweithdrefnol yn unig ynteu fel rhwystrau mwy sylweddol sy'n atal y Tribiwnlys rhag gweithredu'n deg. Bydd y papur hefyd yn cymharu'r canllawiau ar gyfer cyfieithu yn Gymraeg â'r canllawiau ar gyfer ieithoedd eraill ac yn gofyn beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer ein dealltwriaeth o gydraddoldeb a mynediad at gyfiawnder.

A minnau'n ymarferydd mae hi bob amser yn ddiddorol, yn aml yn syndod ac weithiau'n ddefnyddiol edrych ar sut mae meysydd cyfraith heblaw'ch maes chi'ch hun yn delio ag unrhyw sefyllfa neu broblem benodol. Mae'r papur hwn yn ymwneud yn bennaf â'r Canllawiau Barnwrol ynglŷn â chyfieithwyr yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf (Siambr Mewnfudo a Lloches), ond y man cychwyn yw'r canllawiau mwy cyffredinol a geir yn argraffiad diweddaraf yr *Equal Treatment Bench Book*.[1] Mae ymagwedd y llyfr hwnnw at gyfieithu sy'n cynnwys ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg yn cael ei chymharu â'r dull penodol o ddefnyddio'r Gymraeg[2] yn y Llys. Wedyn rhoddir ystyriaeth fanylach i'r gyfraith achosion ddiweddar gan ystyried sefyllfa cyfieithwyr mewn Apelau Mewnfudo gan ofyn beth y gellid haeru bod hyn yn ei ddweud am yr 'amcan pennaf' a geir yn Rheolau Tribiwnlys yr Haen Gyntaf:

*The overriding objective of these Rules is to enable the Tribunal to deal with cases fairly and justly.*[3]

Cafodd y gynhadledd y tynnir y papur hwn ohoni ei chynnull yn unswydd i ystyried ffenomen gwrandawiadau o bell, a ddaeth yn nodwedd ddyddiol ar system Llysoedd Cymru a Lloegr yn ystod y Pandemig Covid-19. O ran datgelu, dim ond mewn dau wrandawiad o bell yn ystod y cyfnod hwn yr ymddangosodd yr awdur (er bod angen cyfieithu yn y ddau). Cododd y rhain o bractis sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr mwyaf bregus y system fewnfudo, a chafodd y rhan fwyaf o wrandawiadau'r cleientau eu cynnal yn bersonol, drwy gais ac o fwriad penodol. Fe allai hyn fod yn ganllaw diddorol i sut mae gwrandawiadau o bell yn cael eu gweld gan ymarferwyr mewnfudo – sef eu bod yn anaddas i'r apelydd bregus neu lle mae'r achos yn dibynnu ar hygrededd tystiolaeth unigolyn.[4]

1 Y Coleg Barnwrol, 'Equal Treatment Bench Book.' <https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/Equal-Treatment-Bench-Book.pdf> wedi'i gyrchu ar 6 Tachwedd 2022.

2 Er y gellid tybio ran amlaf mai cyfieithu rhwng Cymraeg a Saesneg a olygir, mae'r canllawiau'n cyfeirio'n syml at gyfieithu Cymraeg, a allai mewn theori fod yn gyfieithu o unrhyw iaith arall.

3 First-tier Tribunal (Immigration and Asylum Chamber) Rules 2014, para 2 (1).

4 Jo Hynes, 'Remote Hearings in the Immigration Tribunal: What Could Possibly Go Wrong.' (*Free Movement*, 27 Mawrth 2020) <https://freemovement.org.uk/remote-hearings-in-the-immigration-tribunal-what-could-possibly-go-wrong/> wedi'i gyrchu ar 6 Tachwedd 2022.

Yn ystod ymchwil yr awdur ar gyfer gradd Meistr cafodd nifer o gyfreithwyr eu cyf-weld a hynny, ymhlith pethau eraill, ynghylch eu barn ar 'bregusrwydd', beth oedd e a'r hyn roedd yn ei olygu i ymarferwyr mewnfudo. Ni fydd unrhyw ymdrech yn cael ei gwneud yma i geisio ymdrin â sut mae'r cysyniad wedi'i ystyried gan ddamcaniaethwyr cyfreithiol, ond un o'r ymatebion mwyaf trawiadol yn ystod yr ymchwil honno oedd un gan gyfreithiwr mewnfudo hynod brofiadol a ddywedodd yn syml fod person yn fregus os oes arno angen rhywbeth y mae'n rhaid gofyn i rywun arall ei roi.[5] Mae'n amlwg dweud bod Apelwyr[6] sy ddim yn siarad Saesneg yn fregus am fod arnyn nhw angen cyfieithiad. Er hynny, mae yna fregusrwydd dyfnach, gan fod apelwyr yn dod i'r Tribiwnlys i ofyn am gyfiawnder – sef rhodd unigryw system y llysoedd. Os dyna'n cyrchnod, efallai y gallen ni ofyn a yw cyfieithu naill ai'n bonc arafu ar y ffordd tuag at gyfiawnder – un sy'n gofyn ychydig yn unig o ofal a sylw i'w oresgyn – ynteu'n rhwystr ffordd sydd â'r potensial i atal mynediad yn llwyr.

Cyn bwrw ymlaen ymhellach gallai rhywfaint o gyflwyniad i gyd-destun tribiwnlysoedd mewnfudo (o bell ac wyneb yn wyneb), fod yn fuddiol i'r rhai sy'n anghyfarwydd â nhw. Wedyn rhoddir rhywfaint o sylw i'r hyn a olygir wrth gyfieithu.

Cafodd y Tribiwnlys Mewnfudo, y cyfeirir ato'n gywirach fel Siambr Mewnfudo a Lloches Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, ei sefydlu yn ei ffurf bresennol yn 2010,[7] er bod diwygiadau wedi bod wedyn, yn enwedig ynghylch hawliau apelio. Dyma'r gangen o Dribiwnlys yr Haen Gyntaf sy'n delio ag achosion ynghylch hawliau pobl i ddod i'r Deyrnas Unedig neu i aros yma ar ffurf apelau yn erbyn penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol. Er bod hawliau apelio wedi'u lleihau'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae llwyth gwaith y Tribiwnlys yn dal yn cynnwys ystod eang iawn o sefyllfaoedd – o Apelau 'Gwarchod' sy'n cwmpasu materion Lloches a materion Gwarchod Dyngarol, i achosion eraill sy'n seiliedig ar Hawliau Dynol, i achosion Allgludo (sef anfon rhywun ymaith ar ôl trosedd), i geisiadau o dan Gynllun Setlo'r UE.

Mae'r achosion gerbron y Tribiwnlys yn aml yn gymhleth, gan fod y gyfraith mewnfudo yn adnabyddus am fod yn astrus: yn 2013 dywedodd yr Arglwydd Ustus Jackson ei bod hi erbyn hyn wedi cyrraedd "... a degree of complexity which even the Byzantine emperors would have envied".[8] Hawdd y gellid dweud bod y Gyfraith yn aml yn gymhleth – dyna pam mae angen cyfreithwyr. Er hynny, mae'n nodedig hefyd, o blith y 366 o apelau mewnfudo a gafodd eu gwrando yn Nhribiwnlys Casnewydd yn ystod 40 diwrnod gwaith cyntaf 2022, fod 10 y cant yn cynnwys apelwyr heb gynrychiolydd. O'r apelau gwarchod, roedd 25 y cant heb gynrychiolwyr gyda 24 y cant arall yn cael eu cynrychioli gan elusen fach yng Nghaerdydd sy'n helpu'r rhai sy'n methu cael mynediad at gynrychiolaeth a ariannir yn gyhoeddus. Ym Manceinion, ar draws cyfnod ychydig yn llai roedd y niferoedd yn debyg gyda 28% o apelwyr mewn apelau gwarchod heb gynrychiolydd.[9] Yn y cyd-destun hwn, lle mae diffyg cynrychiolaeth yn cwrdd â chyfraith syfrdanol o gymhleth mae'n rhaid gofyn wedyn pa rôl y mae'n rhaid i'r cyfieithydd ei chwarae neu ba rôl y dylai ei chwarae? Ac a ydy hynny'n debyg mewn unrhyw ffordd i'r rôl maen nhw'n ei chwarae mewn gwirionedd?

Dyma pam mae'n bwysig ystyried beth sydd mewn gwirionedd yn cael ei olygu wrth 'cyfieithu'. Y mannau cychwyn ar gyfer y papur presennol oedd yr *Equal Treatment Bench Book*, a'r geiriau rhagarweiniol ar wefan *Eventbrite* y gynhadledd y tynnir y papur hwn ohoni. Mae'r cyflwyniad hwnnw'n nodi y bydd y gynhadledd yn ystyried defnyddio 'cyfieithu ar y pryd' mewn gwrandawiadau o bell. Mae'r anawsterau sy'n gysylltiedig â chyfieithu ar y pryd yn cael eu derbyn gan y *Bench Book* sy'n nodi na fydd cyfieithu ar y pryd yn bosibl ar-lein yn aml.[10]

5 Siân Pearce, 'Insider Conflicts and a Warning to the Curious: A Consideration of a Field Research Project by a Practicing Legal Professional Considering the Asylum System' (Traethawd Hir MSc, Prifysgol Caerdydd 2022).
6 Lle mae'n gyffredin mewn meysydd eraill cyfeirio at 'ymgyfreithwyr' ac 'ymgyfreithwyr drostynt eu hunain', nid dyna'r confensiwn wrth ymarfer mewn mewnfudo. Yma dilynir y confensiwn o gyfeirio at 'Apelwyr' ac 'Apelwyr Heb Gynrychiolydd' gan fod hyn ym marn yr awdur yn adlewyrchu'n well yr anghydraddoldebau eithafol rhwng y rhai sy'n apelio a chynrychiolwyr y Wladwriaeth.
7 Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau'r Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo 2010.
8 *Pokhriyal v The Secretary of State for the Home Department* [2013] EWCA Civ 1568
9 Ystadegau a gynhyrchwyd gyda chaniatâd caredig y Dr Jo Wilding
10 Y Coleg Barnwrol (n 1) 236.

Er hynny, y rhagnodiad cyffredinol ar gyfer cyfieithu Cymraeg yn y Llysoedd o hyd yw mai cyfieithu ar y pryd a geir. Gwneir hyn yn glir ym Mharagraff 164:

*Welsh interpretation supplied via the Welsh Language Unit for the courts and tribunals will be simultaneous, and interpreters have to pass practical exams to get accredited.* [11]

Ceir yr unig gyfeiriad at achrediad mewn perthynas ag ieithoedd eraill ym mharagraff 144 sy'n nodi '*informal interpreters cannot serve as a substitute for accredited interpreters in relation to evidence*'.[12] Does dim gofyniad na rhagdybiaeth y ceir cyfieithu ar y pryd mewn unrhyw iaith heblaw Cymraeg.

Er gwaethaf y gwahaniaethau o ran y dull a sicrwydd ansawdd, bernir mai'r un yw diben y gwaith cyfieithu ym mhob amgylchiad, er mai'r Barnwr biau'r dasg o wirio bod pawb yn deall ei gilydd er mwyn sicrhau gwrandawiad teg (para 111).[13] Mae hyn yn ymddangos yn ddigon didrafferth: mae pawb yn deall beth mae pawb arall yn ei ddweud ac felly mae gwrandawiad teg yn cael ei gyflawni. Mae hyn yn arwain at swm a sylwedd yr ystyriaeth bresennol – y cwestiwn sut mae gwrandawiad teg (beth bynnag mae hynny'n ei olygu) yn cael ei gyflawni ac a ydy '*pawb yn deall ei gilydd*' mor syml ag y mae'n swnio.

Pe bai hynny'n wir, awgrymir yn barchus y byddai'r papur hwn a'r gynhadledd flaenorol wedi bod yn llawer byrrach a llawer llai diddorol. Bydd gweddill yr ystyriaeth yn symud i ffwrdd o'r cymariaethau â'r canllawiau ynglŷn â'r Gymraeg gan ganolbwyntio'n llwyr ar y materion sy'n bresennol mewn gwrandawiadau mewnfudo. Awgrymir bod y cwestiynau ynglŷn â chyfieithu yn y llys mewnfudo yn anffodus yn gwestiynau sylfaenol ynghylch beth mae'n ei olygu i gael gwrandawiad teg. O ganlyniad, does dim modd i unrhyw beth sy'n ychwanegu haenau pellach o gymhlethdod at wrandawiadau – fel eu cynnal ar-lein – gael ei weld yn synhwyrol fel unrhyw beth ond bygythiad difrifol i gyfiawnder. I ddarlunio'r gosodiad beiddgar hwn gwrandodd y Tribiwnlys Uchaf achos *TS (interpreters) Eritrea* yn 2019.[14] Dyma'r crynodeb:

*(1)* ***An appellate tribunal will usually be slow to overturn a judge's decision on the basis of alleged errors in, or other problems with, interpretation at the hearing before that judge*** *(Perera v Secretary of State for the Home Department [2004] EWCA Civ 1002). Weight will be given to the judge's own assessment of whether the interpreter and the appellant or witness understood each other.*

*(2) Such an assessment by the judge should normally be undertaken at the outset of the hearing by the judge (a) putting questions to the appellant/witness and (b) considering the replies.* ***Although he or she may not be able to speak the language of the appellant/witness, an experienced judge will usually be able to detect difficulties****; for example, an unexpected or vague reply to a specific question that lies within the area of knowledge of the appellant/witness or a suspiciously terse translation of what has plainly been a much longer reply given to the interpreter by the appellant/witness. Non-verbal reactions may also be factored into the judge's overall assessment.*

*(3) Where an issue regarding interpretation arises at the hearing, the matter should be raised with the judge at the hearing so that it can be addressed there and then. Even if the representatives do not do so, the judge should act on his or her own initiative, if satisfied that an issue concerning interpretation needs to be addressed.*

*(4) In many cases, the issue will be capable of swift resolution, with the judge relying upon the duty of the parties under rule 2(4) of the Procedure Rules of both of the Immigration and Asylum Chambers to help the Tribunal to further the overriding objective of dealing with the case fairly and justly.*

---

11 ibid 240.
12 ibid 237.
13 ibid 234.
14 *TS (interpreters) Eritrea* [2019] UKUT 352.

*(5) A challenge by a representative to the competence of a Tribunal-appointed interpreter must not be made lightly. If made, it is a matter for the judge to address, as an aspect of the judge's overall duty to ensure a fair hearing.* ***Amongst the matters to be considered will be whether the challenge appears to be motivated by a desire to have the hearing aborted, rather than by any genuine material concern over the standard of interpretation.***

*(6) It will be for the judge to decide whether a challenge to the quality of interpretation necessitates a check being made with a member of the Tribunal's administrative staff who has responsibility for the booking of interpreters. Under the current arrangements for the provision of interpreters, it* ***may*** *be possible for appropriate enquiries to be made by the administrative staff of the Language Shop (a quality assurance service run by the London Borough of Newham in respect of the Ministry of Justice's language contract), as to whether the interpreter is on the register and whether there is any current disclosable issue regarding the interpreter. The initiation of any such enquiries during a hearing is, however, a matter for the judge. In practice, it is unlikely that it would be necessary or appropriate to take such action. In most cases, if the standard of interpretation is such as seriously to raise an issue that needs investigating, the point will probably already have been reached where the hearing will have to be adjourned and re-heard by a different judge (using a different interpreter).*

*(8)* ***On an appeal against a judge's decision, even if it is established that there was or may have been inadequate interpretation at the hearing before the judge, the appeal will be unlikely to succeed if there is nothing to suggest the outcome was adversely affected by the inadequate interpretation.*** *This will be the position where the judge has made adverse findings regarding the appellant, which do not depend on the oral evidence (Perera, paragraphs 24 and 34).*

*(9) It is important that Tribunal-appointed interpreters are able to discharge their functions, to the best of their abilities. It is part of the judicial function to enable an interpreter to do this by, for instance, preventing a party or representative from behaving in an intimidating or oppressive way towards the interpreter. By the same token, the Tribunal and the parties are entitled to expect that the interpreter will interpret accurately, regardless of what he or she personally thinks of the evidence they are being required to translate.*[15] [y pwyslais wedi'i ychwanegu]

Mae *TS* yn apêl ar benderfyniad gan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn dilyn gwrandawiad apêl lloches. Roedd cyfreithwyr yr apelydd wedi dod â'u cyfieithydd eu hunain i gyfieithu ar eu rhan gerbron y gwrandawiad ac i aros ar gyfer y gwrandawiad ei hun – sef rhywbeth sydd mewn achosion mewnfudo yn gyffredinol yn cael ei ystyried yn arfer da. Cododd y cyfieithydd hwn bryderon ynghylch ansawdd y gwaith cyfieithu yn ystod y gwrandawiad drwy gyfrwng nodyn i'r bargyfreithiwr sawl gwaith yn ystod y gwrandawiad. Cafodd cais am ohiriad ei wneud maes o law a chafodd ei wrthod. Yn ei ddyfarniad beirniadodd Barnwr Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yr arfer o ddod ag ail gyfieithydd.

Yn y rhan fwyaf o achosion, dyna fyddai diwedd y mater: mae'n hysbys bod apelau ar gwestiynau o ddisgresiwn y barnwr yn anodd. Er hynny, aeth cyfieithydd y tribiwnlys wedyn at y bargyfreithiwr mewn safle bws y tu allan i'r Tribiwnlys a mynd ymlaen nid yn unig i drafod yr achos oedd newydd gael ei wrando ond hefyd i gynnig barn hynod negyddol ar yr Apelydd.[16] Y weithred hon yn hytrach nag unrhyw amheuon parhaus ynghylch ansawdd y gwaith cyfieithu a barodd i'r apêl i'r Tribiwnlys Uchaf lwyddo yn y pen draw, er bod rhybuddion wedi'u rhoi i'r rhai sy'n cynrychioli apelwyr mewn sefyllfaoedd tebyg i beidio â chymryd yn ganiataol y byddan nhw mor ffodus.

15 *TS (interpreters) Eritrea* [2019] UKUT 352, https://www.bailii.org/uk/cases/UKUT/IAC/2019/352.html
16 Colin Yeo, 'Appeal Overturned after Bus Stop Rant by Court Interpreter' (*Free Movement*, 29 Tachwedd 2019) <https://freemovement.org.uk/appeal-overturned-after-bus-stop-rant-by-court-interpreter/> wedi'i gyrchu ar 7 Tachwedd 2022.

Mae'r crynodeb yn yr achos hwn hefyd yn rhoi awgrym buddiol o ran beth allai 'gwrandawiad teg' fod, o leiaf ym meddyliau'r Tribiwnlys Uchaf. Mae'n amlwg o'r ymadroddi mai'r safon sy'n cael ei gosod o ran gwrandawiad teg mewn gwirionedd yw nid bod yr achos yn cael ei ddeall yn iawn ac yn gyfan gwbl gan bawb sydd ynghlwm ag ef, ond yn hytrach nad oes, ym marn y Tribiwnlys, unrhyw effaith andwyol ar yr Apelydd yn cael ei achosi gan y cyfieithu gwael yn ystod y gwrandawiad.

Gellid credu mai fersiwn ddigon digalon o gyfiawnder yw hon. Nid yw'n rhoi unrhyw bwysau ar anghenion person, sydd gerbron y Tribiwnlys o dan amgylchiadau a fydd yn effeithio'n aruthrol ar gwrs ei fywyd, i ddeall a chael ei ddeall. Mae hyn wrth gwrs yn cynnwys yr apelwyr hynny nad oes ganddyn nhw'r fantais o fod â chynrychiolydd i egluro ystyr y dyfarniad a fydd yn cyrraedd ryw dair neu bedair wythnos wedyn, yn Saesneg yn unig. Ym mhractis yr awdur ei hun, sy'n cynnwys nifer fawr o gleientau y mae angen iddyn nhw gyflwyno sylwadau pellach ar ôl i apêl lloches gael ei gwrthod un o'r cwestiynau sy'n cael ei ofyn amlaf yw pam. Pam ces i fy ngwrthod, a pham na ches i fy nghredu.

Mae pethau'n mynd yn fwy problematig byth o osod yr uchod yng nghyd-destun gwrandawiadau o bell. Mae Grieshofer yn nodi'r heriau sy'n rhan annatod o wrandawiadau a oedd yn canolbwyntio ar dystiolaeth naratif tystion mewn fformat sy'n cael ei gyfieithu. Mae hi'n cyfeirio at wrandawiadau sy'n defnyddio cyfieithwyr fel gwrandawiadau 'drwy gyfrwng cyfieithydd',[17] sef ymadrodd hynod ddefnyddiol ar gyfer deall rôl y cyfieithydd lle mae sicrhau bod pawb yn deall ei gilydd o bosibl yn cario ystyr ddyfnach. Mae'r rôl hon yn cynnwys cyfryngu rhwng gwahanol ddealltwriaethau diwylliannol a bydolygon yn ogystal â symud geiriau o'r naill iaith i'r llall. Mae Grieshofer yn disgrifio rhai o'r anawsterau sy'n wynebu cyfieithwyr mewn gwrandawiadau o bell fel hyn:

"[the] *additional distortion of power relations due to the unequal audio-visual representation of the participants… as the positioning of microphones, cameras and monitors defines the extent to which individuals would be seen and heard. Such conditions thus reduce the overall sound quality as well as image and sound synchronisation. The cognitive strain on interpreters or even other participants or difficulties with communication management are thus common problems in such settings. Furthermore, situations when interpreters face multiple images on the monitor… lead to an overflow of visual input and additional challenges, which would not occur in face-to-face interpreting"*[18]

Mae cyfieithu yn dasg fedrus iawn, ac fel y nodwyd yn gynharach does dim achrediad na hyfforddiant safonol i'r rhai sy'n gweithio mewn ieithoedd heblaw Cymraeg. Mae'r cyfle ar gyfer gwallau dynol felly'n ymddangos yn aruthrol. Er hynny, barn y Tribiwnlys yw, os yw'r Barnwr yn cael ei wyro gan rywbeth heblaw tystiolaeth yr Apelydd neu rywun arall y mae arno angen cyfieithiad, megis gwybodaeth am wledydd gan y Swyddfa Gartref, nid yw'r siawns y ceir camgymeriad, nac unrhyw wallau gwirioneddol yn y cyfathrebu â'r Apelydd neu ar ei ran, yn bwysig. Mae'r penderfyniad cywir wedi'i wneud ac efallai nad yw cyfiawnder wedi ei wneud, ond ei fod wedi'i roi.

I gloi, mae dyfodiad gwrandawiadau o bell yn ein gorfodi i ystyried rhai o'r rhagdybiaethau sylfaenol ynghylch sut mae cyfiawnder yn gweithredu – beth mae'n ei olygu i rywbeth fod yn deg? Beth mae'n ei olygu i gymryd rhan mewn gwrandawiadau? Pam mae'r pethau hyn o bwys o gwbl?

---

17 Tatiana Grieshofer, 'Remote Interpreting in Immigration Tribunals: The Journey to Comprehensibility: Court Forms as the First Barrier to Accessing Justice' [2022] International Journal for the Semiotics of Law - Revue internationale de Sémiotique juridique <https://link.springer.com/10.1007/s11196-022-09908-3> wedi'i gyrchu 7 Tachwedd 2022.
18 ibid 10.

Yn anffodus, mae yna brinder ymchwil ar brofiadau apelwyr – yn enwedig y rhai sydd heb gynrychiolydd. Gan hynny does dim llawer o gofnod o brofiadau'r rhai sydd wedi rhoi eu tystiolaeth drwy gyfrwng cyfieithwyr. Ond, yn ôl y sôn, mae'n ymddangos y gall y sylweddoliad bod pethau wedi mynd o chwith i hawlwyr lloches, a ddechreuodd o bosibl â lefel uchel o ymddiriedaeth a hyder yng Nghyfiawnder Prydain, fod yn aruthrol.

Felly, mae'r Tribiwnlys yn wynebu dewis – ai anelu am y lefelau uchaf o gyfiawnder ynteu'r lefelau uchaf o hwylustod, ac efallai ei bod yn llai perthnasol siarad am bonciau arafu na thyllau yn y ffordd – sef pethau y gall rhai lywio o'u gwmpas yn rhwydd, ond sy'n achosi trychineb i eraill.

# GWRANDAWIADAU O BELL MEWN LLYSOEDD TEULU

Dr Julie Doughty, Uwch-ddarlithydd yn y Gyfraith, Ysgol Cyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd

DoughtyJ@cardiff.ac.uk

Yn fy sesiwn i ar gyfer Cynhadledd Dyfodol Gwrandawiadau o Bell ar ôl Covid ar 21 Gorffennaf, amlinellais rywfaint o ymchwil ar effaith gwrandawiadau o bell ar ddefnyddwyr y llysoedd, a hynny yng nghyd-destun ymarfer yn y dyfodol mewn llysoedd teulu. Disgrifiais hefyd rai manteision ar gyfer addysg gyfreithiol gyhoeddus yn sgil mwy o gyfleoedd i arsylwi a gohebu ar wrandawiadau llys. Cynhwysais rywfaint o ymchwil ar y Llys Gwarchod a'r Llys Ieuenctid oherwydd, er bod y rhain yn awdurdodaethau ar wahân, mae rhai nodweddion cyffredin.

Ym mis Gorffennaf 2022, doedd hi ddim yn amlwg i ba raddau roedd gwrandawiadau o bell yn dal i ddigwydd yn y Llys Teulu. Roedd Llywydd Adran Deulu yr Uchel Lys, Syr Andrew McFarlane, wedi nodi y dylai partïon a'u cyfreithwyr fod yn bresennol yn gorfforol fel arfer mewn llysoedd teulu pan allai penderfyniad pwysig gael ei gymryd. Ym mhob gwrandawiad cyntaf ar lefel yr Uchel Lys roedd y partïon i fod yn bresennol yn bersonol, ac fe gâi'r penderfyniadau dilynol ynglŷn â phresenoldeb eu gwneud gan y barnwr.[19]

Gan hynny, fe wnes i rai ymholiadau a ddangosodd fod yr arferion yn amrywio ar draws y wlad, o gynnal y gwrandawiadau bron i gyd o bell i gynnal bron pob un wyneb yn wyneb. Roedd amrywiadau hefyd yn ôl lefel wahanol o farnwr. Anffurfiol hollol oedd fy ymchwil i, drwy gysylltiadau personol a'r cyfryngau cymdeithasol, felly cwbl argraffiadol yw'r darlun sy'n cael ei gyflwyno yma.

Dyma rai enghreifftiau o'r ymatebion:

- 'Cafodd fy nghais i am fod yn bresennol o bell yn ddiweddar ei wrthod felly roedd rhaid teithio am fwy na 9 awr ar gyfer gwrandawiad oedd wedi'i restru fel gwrandawiad un awr' – CF yn y De
- 'yn anffodus, does dim modd gwneud cyfiawnder mwyach oni bai bod pawb yn ystafell y llys wedi teithio am awr o leiaf' – bargyfreithiwr iau yn Llundain
- Roedd presenoldeb ar-lein 'yn dal yn gyffredin iawn. Mae'n dibynnu ar y math o achos, y math o wrandawiad, DFJ yr ardal, y barnwr unigol' – bargyfreithiwr iau, Birmingham.

Yn ystod yr wythnos y bues i'n gofyn y cwestiwn, roedden ni wedi cael tywydd eithriadol o boeth a soniodd rhai cyfreithwyr fod gwrandawiadau wedi'u newid i gael eu cynnal ar-lein oherwydd y tywydd.

19 A View from the President's Chambers, March 2022 yn https://www.judiciary.uk/guidance-and-resources/a-view-from-the-presidents-chambers-march-2022/

## GWRANDAWIADAU DWYIEITHOG O BELL YN Y LLYS TEULU YNG NGHYMRU

Yng nghyd-destun themâu'r gynhadledd, fe fues i'n ymholi hefyd ymysg cyfreithwyr gofal plant awdurdodau lleol ledled Cymru, gan ofyn a oedd ganddyn nhw brofiad o wrandawiadau dwyieithog o bell, ond dim ond un cyfreithiwr a fynegodd farn, gan godi rhai pwyntiau diddorol:

'Dwi erioed wedi gwneud gwrandawiad dwyieithog Cymraeg/Saesneg yn bersonol nac o bell. Dwi'n dychmygu bod y materion yr un fath ag mewn unrhyw wrandawiad o bell lle mae gennyn ni gyfieithwyr. Mae gennyn ni wrandawiadau gyda chyfieithwyr ieithoedd eraill... yn rheolaidd wrth gwrs o bell. Dwi hefyd wedi bod mewn gwrandawiadau hybrid gyda chyfieithwyr. Mae'n cymryd amser.

Mae angen parchu iaith gyntaf pawb lle maen nhw'n gyffyrddus yn mynegi eu hunain, yn enwedig yn arena'r llys gan fod llawer yn y fantol wrth gwrs fel arfer.

Rydyn ni'n croesawu gwrandawiadau o bell. Maen nhw'n caniatáu i weithwyr cymdeithasol fod yn bresennol mewn gwrandawiadau cyfarwyddiadau yn gyflym a symud ymlaen at waith arall sy'n arbennig o bwysig y dyddiau yma lle mae prinder cyffredinol o weithwyr cymdeithasol. Mae hyn hefyd yn wir am ymarferwyr cyfreithiol yn y gyfraith deuluol.'

Daeth yn amlwg o gyfraniadau eraill i'r drafodaeth yn y gynhadledd fod gwrandawiadau llys a gâi eu cynnal yn Gymraeg a Saesneg yn tueddu i ddefnyddio cyfieithu ar y pryd yn hytrach na chyfieithu olynol, fel a geir yn gyffredinol mewn ieithoedd eraill.

## ADEILADU AR BROFIADAU PARTÏON A GWEITHWYR PROFFESIYNOL ER MWYN LLYWIO GWRANDAWIADAU O BELL YN Y DYFODOL

Roedd yna bryderon dealladwy ynglŷn â'r effaith ar ddefnyddwyr llysoedd pe baen nhw'n methu bod yn bresennol yn gorfforol mewn gwrandawiadau yn y llys, yn enwedig felly yr effaith ar rieni pan fyddai penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud am les eu plant. Cysylltodd y Llywydd ag Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield (NFJO) a gynhaliodd dri ymchwiliad i wrandawiadau o bell. Yn eu trydydd adroddiad, 'Remote hearings in the family court post-pandemic', roedden nhw wedi nodi'r pryderon penodol a ganlyn yng Nghymru a Lloegr.[20]

Roedd yna gwestiynau ynghylch mynediad at gyfiawnder mewn achosion lle roedd angen cyfryngwyr neu gyfieithwyr. Yn aml roedd heriau ychwanegol yn wynebu ymgyfreithwyr drostyn nhw ei hunain yn y llysoedd teulu. Mae rhieni sy'n cynrychioli eu hunain ac aelodau o'r teulu yn gyffredin mewn achosion teuluol yn y gyfraith breifat. Er bod gan rieni mewn achosion gofal hawl i gael cynrychiolwyr cyfreithiol sydd heb eu profi ar sail rhagoriaethau a heb brawf modd, mewn anghydfodau ynglŷn â chyswllt ar ôl i'r rhieni wahanu ac mewn ceisiadau am ofal gan berthynas, dyw'r rhan fwyaf o bartïon ddim yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol o gwbl.

Gwelodd yr NFJO hefyd fod llawer o wrandawiadau wedi'u cynnal lle roedd y partïon lleyg yn dibynnu ar ffôn yn unig. Cymysg oedd y profiad o ddefnyddio CVP (y Llwyfan Fideo Cwmwl a oedd yn cael ei ddefnyddio gan y llysoedd). Chafodd y mwyafrif llethol o'r rhieni ddim help i gael mynediad at dechnoleg. Er nad oedd gan 83% o'r rhieni a holwyd unrhyw bryderon ynghylch y modd y cafodd eu hachos ei drin, roedd 73% yn teimlo ei bod nhw heb gymorth. Roedd rhyw hanner y rhieni hyn heb gael unrhyw gynrychiolaeth gyfreithiol ond cafodd eraill broblemau o ran cyfathrebu â'u cyfreithwyr yn ystod y gwrandawiad.

20 Ryan et al. (2021) Remote hearings in the family court post-pandemic yn https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/remote-hearings-post-pandemic

Wrth edrych ar degwch gwrandawiadau anghysbell, dywedodd yr NFJO fod rhieni a gweithwyr proffesiynol wedi codi materion ym mhob un o'r tri ymgynghoriad ynghylch y canlynol:

- anhawster cyfranogi'n llawn lle roedd mynediad at dechnoleg yn broblem
- diffyg cefnogaeth gyfreithiol a chefnogaeth arall cyn ac yn ystod y gwrandawiad
- pryderon am breifatrwydd a chyfrinachedd
- nad oedd anghenion cyfathrebu penodol rhai rhieni yn cael eu hateb
- gwrandawiadau'n cael eu trefnu ar fyr rybudd
- dim digon o wybodaeth i'r partïon ymlaen llaw, gan gynnwys copïau o bapurau llys
- gwrandawiadau'n cael eu rhuthro
- cynnal awdurdod y llys

Roedd yr awgrymiadau a wnaed a'r enghreifftiau o arferion da yn cynnwys:

- penderfynu ymlaen llaw sut mae gwrandawiadau i'w cynnal
- cefnogi'r rhieni
- gwella'r ffordd y mae gwrandawiadau o bell yn cael eu cynnal drwy baratoi, gwell cefnogaeth weinyddol a thechnolegol
- darparu gwell mynediad at fwndeli llys
- casglu data er mwyn gwella perfformiad

## ARSYLWI AR WRANDAWIADAU O BELL

Er bod cyfyngiadau Covid wedi lleihau mynediad newyddiadurwyr a'r cyhoedd i wrandawiadau llys agored, roedd yna sgil-effaith buddiol o ganlyniad i gyflwyno gwrandawiadau o bell mewn llysoedd y mae hi fel arfer yn anodd arsylwi arnyn nhw'n bersonol. Y datblygiad mwyaf trawiadol oedd prosiect Cyfiawnder Agored yn y Llys Gwarchod, sy'n cael ei drafod isod. Mewn llysoedd teulu, daeth y cyfleoedd i arsylwi ychydig yn haws hefyd.

## *BLOGIO CYFREITHIOL YN Y LLYS TEULU O DAN REOL 27(11) O'R RHEOLAU TREFNIADAETH TEULU*

Mae cyhuddiadau bod yna 'Lys Teulu cudd' yn gyffredin am fod gwrandawiadau fel arfer yn cael eu cynnal yn breifat ac na chaniateir rhannu'r manylion. Ers 2009, mae'r cyfryngau'n cael bod yn bresennol mewn achosion teulu, ond yn methu ysgrifennu dim byd heb ganiatâd y llys, o dan adran 12 o Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1960. Anaml iawn felly y bydd newyddiadurwyr yn bresennol.[21]

Yn dilyn 'cynllun peilot blogio cyfreithiol', mae'r Rheolau Trefniadaeth Teulu erbyn hyn yn caniatáu i gyfreithwyr awdurdodedig (sydd heb gysylltiad â'r achos) fod yn bresennol mewn gwrandawiadau preifat fel blogwyr cyfreithiol. Gall y sylwedyddion cyfreithiol hyn fod yn ymarferwyr neu'n gyfreithwyr academaidd, neu'n gyfreithwyr sy'n gweithio i elusen addysgol. Yn yr un modd â newyddiadurwyr, peth prin yw gweld un yn teithio i'r llys yn y gobaith o gael caniatâd i ohebu. Gan ei bod yn haws mynd i wrandawiad o bell na chael mynediad i lys yn gorfforol, fe arweiniodd cyfyngiadau Covid at gynnydd yn y cyfleoedd ar gyfer blogio cyfreithiol. Mae angen caniatâd gan y barnwr i gyhoeddi blogiad ac mae'n rhaid i'r rhain sicrhau bod plant yn ddienw. Mae manylion am flogio cyfreithiol i'w gweld yn y Prosiect Tryloywder.[22]

---

21 I gael disgrifiad o'r broblem, gweler cynigion diweddar ar gyfer diwygiadau yn https://www.judiciary.uk/guidance-and-resources/transparency-in-the-family-courts-report-3/

22 Yn https://transparencyproject.org.uk/legalbloggers/

Cododd un enghraifft o flogio cyfreithiol o achos yng Nghymru, a wnaed yn bosibl am ei fod yn wrandawiad o bell yn gyfan gwbl, rai materion diddorol am y defnydd priodol o orchymyn gofal ar gyfer cymorth i deuluoedd.[23] Mewn achos arall (yn Lloegr) lle roedd mynediad o bell yn bosibl a lle cytunodd y barnwr i'r Prosiect Tryloywder ysgrifennu, roedd rôl cyfieithydd yn ganolog.[24] Roedd yr achos hwnnw'n ymwneud â'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn mewn achosion o anghydfodau ynghylch cyswllt lle mae yna honiadau o gam-drin domestig.

## *PROSIECT CYFIAWNDER AGORED YN Y LLYS GWARCHOD*

Yn wahanol i'r Llys Teulu, mae gwrandawiadau'r Llys Gwarchod fel arfer yn cael eu cynnal yn gyhoeddus. Mae hunaniaeth 'P', sef y person sydd yng nghanol yr achos, yn cael ei warchod drwy gyfyngiad ar ohebu sy'n cael ei alw'n 'orchymyn tryloywder'. Yn ystod y cyfnod clo, aeth gwrandawiadau'r Llys Gwarchod ar-lein ond roedden nhw'n dal yn agored i'r cyhoedd. Achubodd dau academydd, yr Athro Celia Kitzinger a Gill Loomes-Quinn, oedd â phrofiad o gefnogi partïon yn y Llys Gwarchod, ar y cyfle hwn i sefydlu'r Prosiect, a hynny er mwyn arsylwi o bell ar wrandawiadau. Erbyn hyn, mae'r Prosiect yn annog pobl sydd â buddiant yn y materion i ymuno â gwrandawiadau er mwyn arsylwi, dysgu ac o bosibl gohebu.

Mae blogiadau rheolaidd yn cael eu cyhoeddi gan aelodau'r Prosiect a cheir blogiadau gwadd eraill gan gyfreithwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol, myfyrwyr etc. Cyhoeddwyd crynodeb defnyddiol o waith y Prosiect ym mis Mehefin 2022.[25] Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn darganfod sut i arsylwi ar wrandawiad gael y manylion ar wefan y Prosiect.

Ym mis Gorffennaf, holais i'r Athro Kitzinger am ei barn ar ddyfodol gwrandawiadau'r Llys Gwarchod. Atebodd:

"O ran theori, mae'r llysoedd yn ôl mewn ystafelloedd llys corfforol. Dyna'r drefn "ddiofyn" mewn enw.

Mewn gwirionedd, mae yna bobl yn profi'n bositif am Covid yn aml, neu wedi'u heffeithio gan y streiciau rheilffordd, neu'n aros gartref oherwydd y don wres. Mae llawer iawn o wrandawiadau yn digwydd o bell. Fy mhrofiad i yw nad yw'r barnwyr yn gwthio am wrandawiadau wyneb yn wyneb oni bai bod lleygwyr sy'n rhan o'r gwrandawiadau am iddyn nhw gael eu cynnal yn bersonol (yn aml dydyn nhw ddim), neu os ydyn nhw'n gwrando tystiolaeth gan dystion lle mae hygrededd yn gwestiwn.

Rwy'n gwrando ar lawer o'r negodiadau hyn ar ddiwedd gwrandawiadau pan fo'r dyddiad yn cael ei bennu ar gyfer y gwrandawiad nesaf a phrin y bydd unrhyw bwysau o blaid gwrandawiad "wyneb yn wyneb" ac weithiau mae yna gryn bwysau i rai pobl o leiaf gael caniatâd i fod yn bresennol o bell.

Mae'r dyfodol yn hybrid – rwy'n siŵr o hynny! '

---

23 https://transparencyproject.org.uk/the-necessity-for-a-care-order/
24 https://transparencyproject.org.uk/b-v-p-an-appeal-against-findings-where-the-court-did-not-follow-correct-procedures-about-abuse-allegations/
25 https://openjusticecourtofprotection.org/2022/06/15/happy-second-birthday-to-the-open-justice-court-of-protection-project/

## GWRANDAWIADAU O BELL YN Y LLYS IEUENCTID

Anaml y bydd y bobl sy'n destun yr achos llys, sef plant yn y llysoedd teulu a 'P' yn y Llys Gwarchod, yn bresennol yn y llys. Er hynny, mae disgwyl i'r diffynyddion mewn achosion troseddol ymddangos yn bersonol gerbron y barnwr neu'r ynad.[26]

Mae ymchwil a oedd ar gael ar wefan 'Transform Justice' ym mis Gorffennaf 2022 yn cynnwys cyfweliadau ag oedolion o ddiffynyddion ynghylch gwrandawiadau o bell, nad oedden nhw'n gweld dim mantais mewn gwrandawiadau fideo, heblaw arbed amser a siwrneiau o bosibl. Roedd bron yr holl ddiffynyddion yn y samplau yn teimlo bod dewis fideo yn golygu colli rhywbeth, gan nad oedd y profiad mewn gwrandawiad llys drwy gyswllt fideo gystal â gwrandawiad wyneb yn wyneb. Mae Transform Justice yn dod i'r casgliad bod y dystiolaeth yn awgrymu bod fideo yn arwain at benderfyniadau mwy cosbol, sy'n cyfyngu ar ryddid, ond mae arnon ni angen data caled.[27]

Roedd un adroddiad cyn Covid ar wrandawiadau o bell i ddiffynyddion o blant gan y Gynghrair Cyfiawnder Ieuenctid wedi galw am adolygiad brys o ddefnyddio cysylltiadau fideo ar gyfer diffynyddion o blant. Roedd plant eisoes yn ei chael hi'n anodd deall ac ymgysylltu ag achosion llys ac roedd defnyddio dolenni fideo yn gwaethygu hyn. Argymhellodd yr adroddiad roi'r gorau i ehangu cysylltiadau fideo nes bod dadansoddiad priodol ar gael o effaith cysylltiadau fideo ar ddiffynyddion o blant. Dim ond mewn achosion eithriadol y dylid defnyddio cysylltiadau fideo, gydag addasiadau priodol a dylai'r Cyfarwyddiadau Arferion Troseddol ynghylch defnyddio fideo gyda phlant gael eu tynhau er mwyn atal yr arfer cyffredin o ddedfrydu a chynnal gwrandawiadau remand drwy gyswllt fideo. Os yw pob parti berthnasol o'r farn bod defnyddio cyswllt fideo yn well ar gyfer lles a chanlyniadau'r plentyn, dylai asesiadau trylwyr gael eu cynnal i ddod o hyd i unrhyw fregusrwydd, a dylai addasiadau gael eu gwneud i sicrhau bod y plentyn yn gallu cymryd rhan yn effeithiol.[28]

Yn fwy diweddar, nododd y Gynghrair Cyfiawnder Ieuenctid fod Deddf Coronafeirws 2020 wedi ehangu dros dro y sefyllfaoedd lle gallai cysylltiadau fideo a sain byw gael eu defnyddio'n gyfreithiol mewn achosion yn y llys troseddol, gan ganiatáu i wrandawiadau gael eu cynnal yn gyfan gwbl trwy fideo neu dros y ffôn mewn amgylchiadau penodol. Mae Adran 200 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022 yn gwneud y darpariaethau hyn ynglŷn â chyswllt byw yn barhaol o fis Mehefin 2022 ymlaen.[29]

Doedd ffigurau penodol ynglŷn â defnyddio gwrandawiadau o bell gyda phlant ddim ar gael. Er hynny, roedd trefniadau rhithwir wedi golygu bod llawer o blant yn treulio mwy o amser yn nalfa'r heddlu yn aros am eu gwrandawiad. Cafodd pryderon eu codi y gallai plant sy'n ymddangos dros gyswllt fideo fod yn llai tebygol o gael mechnïaeth, yn fwy tebygol o gael eu cadw yn y ddalfa, ac yn fwy tebygol o gael eu dedfrydu i garchar. Roedd yna ddiffyg gwerthusiad o sut roedd plant wedi cael eu cynnwys fel rhan o wrandawiadau rhithwir.[30]

---

26 Diolch yn fawr i Penelope Gibbs o Transform Justice am fy nghyfeirio at y ffynonellau yn yr adran hon.
27 'Out of Sight, Out of Mind: defendants' experiences of video hearings' Transfrom Justice yn https://www.transformjustice.org.uk/out-of-sight-out-of-mind-defendants-experiences-of-video-court-hearings/
28 M Harris 'They Just Don't Understand What's Happened or Why' (Pwyllgor Sefydlog Cyfiawnder Ieuenctid, 2018)
29 M Harris a P Goodfellow, The Youth Justice System's response to the Covid Pandemic (Cynghrair Cyfiawnder Ieuenctid 2021)
30 Ibid

Ar nodyn mwy cadarnhaol, gwelodd ymchwil ar ran Cymdeithas yr Ynadon yn 2022 fod llysoedd ieuenctid wedi newid lawer llai yn y pandemig na llysoedd ynadon oedolion. Er bod Deddf Coronafeirws 2020 wedi cyflwyno diwygiadau dros dro yn ehangu'r amgylchiadau lle gellid defnyddio cysylltiadau o bell yng ngwrandawiadau'r llys ieuenctid, cafodd cysylltiadau o bell eu hosgoi'n fwriadol mewn llysoedd ieuenctid lle roedd hynny'n bosibl. Roedd ynadon yn effro i'r heriau y byddai plant yn eu hwynebu wrth gymryd rhan yn effeithiol mewn achosion llys ieuenctid lle câi cyswllt o bell ei ddefnyddio. Cydnabuwyd bod yr amrywiol faterion ynglŷn â chysylltiadau o bell a nodwyd gan yr ynadon yn bygwth gallu diffynyddion o dan 18 oed i gymryd rhan mewn achosion yn effeithiol.[31]

## CASGLIAD

Er bod cyflwyno gwrandawiadau o bell yn gyflym wedi codi cwestiynau am fynediad at gyfiawnder, mae'n ymddangos erbyn hyn fod y sgiliau a'r profiad a gynhwyswyd yn y system wedi cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer hyblygrwydd ac ar gyfer addysg gyfreithiol gyhoeddus. Mae'n amlwg bod problemau parhaus difrifol mewn cyfathrebu effeithiol a mynediad at gyfiawnder i blant a theuluoedd sy'n ymwneud â llysoedd teulu ac mewn llysoedd ieuenctid, sef problemau a amlygwyd gan faterion mewn gwrandawiadau o bell. Er hynny, mae'n ymddangos bod y rhain yn codi o fethiant systemig i ateb anghenion unigolion am gyngor a chynrychiolaeth a oedd yn bodoli'n barod.

---

31 Cymdeithas yr Ynadon, *Magistrates Courts and Covid 19* (2022) yn https://www.magistrates-association.org.uk/News-and-comments/new-ma-report-highlights-magistrates-experience-in-criminal-courts-during-covid-19

# THEATR DDEDDFU A GWRANDAWIADAU O BELL

C.F. Huws, R.M. Jewell, H. Binks, L. Schwede

Amcan y papur hwn yw i drafod gweithrediad achosion o hirbell lle defnyddir cyfieithu ar y pryd. Mae'n amlygu rhai o'r ystyriaethau a'r trefniadau sydd yn angenrheidiol er mwyn cynnal gwrandawiadau o bell sydd yn cynnwys cyfieithydd. Er mai cyfieithu ar y pryd sydd dan sylw yma, sef y model a ddefnyddir yn y cyd-destun Cymreig,[32] mae ein canfyddiadau hefyd yn berthnasol i'r dull cyfieithu olynol a ddefnyddir mewn sefyllfaoedd eraill,[33] gan gynnwys cyfieithu i ieithoedd eraill mewn llysoedd yng Nghymru a Lloegr, a chyfieithu i iaith arwyddion.

## DEFNYDD GWRANDAWIADAU O BELL

Er i'r defnydd eang o wrandawiadau  o bell ddigwydd yn sgil pandemig Covid 2020,[34] fe'i defnyddiwyd cyn hyn[35] e.e. mewn gwrandawiadau cyn achos ar gyfer carcharorion sydd yn y ddalfa yn aros eu hachos, ond hefyd ar gyfer croesholi tystion bregus, lle'i holwyd drwy gyswllt fideo o leoliad arall o fewn adeilad y llys. Cyflwyna wrandawiadau o bell heriau penodol, megis dibynadwyedd y dechnoleg,[36] y cyfle i'r tyst i gymryd rhan yn effeithiol yn y broses,[37] a'r graddau y gellid gwerthuso credadwyedd tyst,[38] ac mae'r materion hyn oll wedi eu hamlygu fel pryderon.

Cyflwyna achosion sydd yn cynnwys elfen o gyfieithu ar y pryd heriau ychwanegol i'r broses oherwydd:

- nid yw pob platfform fideo gyswllt yn cynnig sianeli ar wahân ar gyfer cyfieithu ar y pryd sydd yn angenrheidiol ar gyfer cyfieithu Cymraeg/Saesneg, ac hefyd ar gyfer cyfieithu i iaith arwyddion.[39]
- mae maint cyfyngedig y ffenestr yn golygu bod e'n anodd i weld wyneb a chorff y cyfieithydd iaith arwyddion.[40]

32 Jewell, R. M, Huws, C.F. and Binks H. (2022) Just Bilingual Cases? The Impact of Simultaneous Interpretation in Welsh Courts. (Forthcoming).
33 Vranjes, J and Brône G (2021) Interpreters as laminated speakers: gaze and gesture as interpersonal deixis in consecutive dialogue interpreting. *Journal of Pragmatics* 181: 83-99.
34 Judiciary of England and Wales (2020) Civil justice in England and Wales: Protocol Regarding Remote Hearings https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2020/03/Remote-hearings.Protocol.Civil_.GenerallyApplicableVersion.f-amend-24_03_20-1.pdf Cyrchwyd 3 Tachwedd 2022.
35 *Criminal Practice Direction I, General Matters 3N: Use of live link and telephone facilities* ([2017] EWCA Crim 30
36 Yr Arglwydd Ganghellor, Yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Arlywydd y Tribiwnlysoedd, 'Transforming Our Justice System' (*Ministry of Justice*, September 2016) https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/553261/joint-vision-statement.pdf Cyrchwyd 6 Awst 2022.
37 Re A (Children) (Remote Hearing: Care and Placement Orders) [2020] EWCA Civ 583
38 Stone, M (1991), 'Instant lie detection? Demeanour and credibility in criminal trials' (1991) Crim.L.R. 821, 822
39 Sylw gan un o'r cyfranogwyr yn ein prosiect ymchwil
40 Clarke, J. (2021) Evaluation of remote hearings during the Covid 19 Pandemic. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1040183/Evaluation_of_remote_hearings_v23.pdf Cyrchwyd 3 Tachwedd 2022 t14.

- clywir cyfieithu i ieithoedd eraill, lle defnyddir cyfieithu olynol neu chuchotage mewn achos wyneb yn wyneb, gan y gwrandawyr ar-lein na ddeallant iaith y cyfieithiad.[41]

## CYFIEITHU AR Y PRYD A CHYFIEITHU OLYNOL

Y model o gyfieithu ar y pryd a ddefnyddir yng Nghymru yw'r model cyfieithu ar y pryd, tra bo awdurdodaethau eraill yn defnyddio cyfieithu olynol. Serch hynny, mae rhai heriau sydd yn gyffredin i'r ddau fodel sef:

- Yr angen i sicrhau fod y cyfieithydd yn allu gweld y siaradwr.[42]
- Yr angen i'r cyfieithydd allu gweld pop cyfranogwr tra hefyd yn canolbwyntio yn benodol ar y siaradwr er mwyn asesu cyflymder, naws, ac i ddarllen wyneb y siaradwr er mwyn gallu cyfleu'r ystyr wrth gyfieithu.[43]
- Llai o gyd-destun gweledol a chorfforol gan y siaradwr, yn enwedig pan mae angen diffodd camerâu er mwyn atal gorlwytho'r prosesydd ar gyfrifiadur.[44]

Dengys gwaith ymchwil a gyflwynwyd gan Brifysgol Aberystwyth yn 2022 sut ymatebodd y system gyfreithiol i'r heriau hyn, gan ystyried sut mae pobol yn ymateb i wrandawiadau lle defnyddir cyfieithu ar y pryd.

## THEATR DDEDDFU A GWRANDAWIADAU O BELL

Fe archwilion ni'r heriau hyn, gyda chyfeiriad penodol at gyfieithu ar y pryd drwy ddefnyddio technegau theatr ddeddfu Augusto Boal.[45] Cynigia dechnegau Boal, a adnabyddir hefyd fel theatr y gorthrymedig gyfle i ymchwilio prosesau cyfredol, ac yna caniatáu i gyfranogwyr gynnig diwygiadau, a chaiff y diwygiadau hyn eu perfformio. Eglura Boal ei dechneg fel a ganlyn:

*Nid rôl y theatr yw i ddangos beth yw'r llwybr cywir, ond yn hytrach i gynnig y dulliau er mwyn ystyried pob llwybr posib.*[46]

---

41 Clarke, J. (2021) Evaluation of remote hearings during the Covid 19 Pandemic. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1040183/Evaluation_of_remote_hearings_v23.pdf Cyrchwyd 3 Tachwedd, 2022 t61.

42 Clarke, J. (2021) Evaluation of remote hearings during the Covid 19 Pandemic. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1040183/Evaluation_of_remote_hearings_v23.pdf Cyrchwyd 3 Tachwedd, 2022.

43 Clarke, J. (2021) Evaluation of remote hearings during the Covid 19 Pandemic. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1040183/Evaluation_of_remote_hearings_v23.pdf Cyrchwyd 3 Tachwedd 2022 t14.

44 Mewn gwaith blaenorol ar gyfieithu mewn achosion llys, pwysleisiodd un o'r cyfieithwyr yr angen i allu gweld y siaradwr er mwyn gallu cyfieithu yr hyn a ddywedant. Trafodir hyn ymhellach yn Jewell, R. M, Huws, C.F. a Binks H. (2022) Just Bilingual Cases? The Impact of Simultaneous Interpretation in Welsh Courts. (I'w gyhoeddi).

45 Ceir trafodaeth bellach o waith Boal a'i berthnasedd i'n hastudiaeth yn Huws, C.F. Jewell, R.M, a Binks H. (2022) 'A legislative theatre study of simultaneous interpretation in legal proceedings' *International Journal of Speech Language and the Law* (I'w gyhoeddi).

46 Boal, A. (1979 a 2000) Theatre of the Oppressed. Llundain; Pluto Press t144.

I'r perwyl hwnnw, llwyfannwyd croes-holiad tyst mewn achos o niwed personol, lle roedd bargyfreithiwr yn croesholi, ac actor yn chwarae rôl y tyst. Cyfieithwyd yr achos gan ddau gyfieithydd sydd yn meddu ar y cymhwyster angenrheidiol er mwyn cyfieithu ar gyfer achosion llys. Roedd y sefyllfa yn cynnwys enghreifftiau o dorri ar draws - oherwydd bod y tyst yn anghytuno â dealltwriaeth y bargyfreithiwr o'r dystiolaeth, ac enghreifftiau hefyd lle'r oedd y bargyfreithiwr yn amau fod y tyst yn celu peth o'r gwirionedd. Roedd hefyd enghreifftiau o oediadau ac ansicrwydd, ail gychwyn brawddegau, a baglu dros eiriau – ac wrth gwrs roedd angen i'r cyfieithydd gyfieithu'r holl agweddau hyn. Amrywiad arall oedd i gyrchu ymateb y cyfranogwyr i groesholiad lle'r oedd y bargyfreithiwr a'r tyst yn siarad yr un iaith, ac felly un cyfieithydd yn cyfieithu ar gyfer y naill a'r llall, ac hefyd eu ymateb i sefyllfa lle mae'r holi yn digwydd drwy gyfrwng y Saesneg a'r ateb yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Y mae'r ddwy sefyllfa yn debygol yn llysoedd Cymru, gan y gall hawliwr neu ddiffynnydd sydd am siarad Cymraeg gyrchu cynrychiolydd cyfreithiol sydd hefyd yn siarad Cymraeg, ond mewn achosion eraill, mae tebygrwydd y bydd yr holi yn digwydd yn y Saesneg a'r ymateb yn y Gymraeg.

Hwyluswyd y digwyddiad gan gyfarwyddwr theatr, a weithredai er mwyn cyrchu a phrocio ymatebion y cyfranogwyr, ac hefyd ymatebion gan ffug reithwyr a ymatebodd i alwad cyhoeddus am gyfranogwyr. Roedd 12 rheithiwr, 3 gwryw a 9 menyw ar draws ystod eang o oedran. Croesholwyd y tyst gan y bargyfreithiwr, a gofynnwyd iddynt hwy ac i'r rheithwyr, ynghyd â'r cyfieithwyr i ymateb, gan awgrymu beth weithiodd yn llwyddiannus, a beth oedd yn anodd neu yn broblemus. Mantais techneg Boal yw ei fod yn caniatáu i bawb fynegi eu ymateb, ond hefyd i gynnig amrywiadau. Mae'r cyd-destun theatrig yn caniatáu i'r cyfranogwyr sylwebu ar yr hyn sydd yn broblemus, sydd yn creu dryswch, yr hyn sydd yn torri sylw, neu sydd yn lletchwith. Bydd yr agweddau hyn wrth gwrs yn gallu effeithio ar ymateb y rheithwyr i'r tyst a sut maent yn gwerthuso ei dystiolaeth. Gellid hefyd ystyried a oedd yr ymatebion yn cyfeirio at ymddygiad y cyfieithydd, ynteu ymddygiad y tyst. Gall hyn hefyd effeithio ar degwch yr achos, gan bod tystiolaeth y tyst, o reidrwydd, yn cael ei ganoli gan y cyfieithydd, ac felly, os bydd y rheithgor yn gwerthuso'r cyfieithydd, mae effeithiau sylweddol o bosib yn debygol o ddigwydd i ganlyniad yr achos gan arwain at yr angen i ystyried pa gamau gellid eu cymryd er mwyn lliniaru'r sefyllfa.

## CYFIEITHU A GWRANDAWIADAU O BELL

Canfyddom fod sawl mantais dros ddefnyddio gwrandawiadau o bell mewn achosion sydd yn cynnwys cyfieithydd. Gall lleoli y cyfieithydd mewn achos wyneb yn wyneb fod yn anodd – mae rhai llysoedd, megis Llys y Goron Caerdydd yn cynnwys ystafell bwrpasol ar wahân, tra bo llysoedd eraill yn lleoli'r cyfieithydd p'le bynnag fo hynny yn gyfleus o fewn ystafell y llys, a lle defnyddir y broses o gyfieithu drwy sibrwd a elwir yn chuchotage ar gyfer un person yn unig, rhaid lleoli'r cyfieithydd nesaf at y sawl sydd yn derbyn y cyfieithiad. Fodd bynnag, gall lleoli'r cyfieithydd fod yn broblemus, gan y gallai hyn greu'r argraff bod y cyfieithydd yn ochri efo'r naill barti neu'r llall, yn hytrach na bod yn lladmerydd annibynnol.[47]

Diddymir y broblem hon mewn gwrandawiadau o hirbell oherwydd bydd y cyfieithydd wedi diffodd eu camera a byddant felly yn llai amlwg yn y broses. Golyga hefyd bod modd cyrchu cyfieithwyr sydd wedi eu lleoli ymhellach i ffwrdd o ganolfan y llys, a gall hyn sicrhau pwll helaethach o gyfieithwyr. Y mae hyn wrth gwrs yn hanfodol bwysig ar gyfer ieithoedd sydd ond â nifer fechan o siaradwyr, neu gyfieithwyr o fewn ardal neu awdurdodaeth, neu ar gyfer ieithoedd sydd a nifer helaeth o amrywiaethau tafodaiethol. Cynigia'r cyfle i alluogi'r cyfieithydd i gymryd rhan o hirbell sgôp ehangach i gyrchu cyfieithwyr priodol, er mwyn galluogi achosion i ddigwydd yn fwy prydlon, heb orfod dibynnu ar argaeledd un unigolyn o gyfieithydd. Gall hefyd olygu bod modd sicrhau cyfieithydd a all gyfieithu confensiynau diwylliannol a thermau anffurfiol yn fwy cywir. Er enghraifft, y mae Sbaeneg Sbaenwr o Sbaen yn dra wahanol i Sbaeneg siaradwraig Sbaeneg o Dde America – gellir cyfieithu ymadroddion, manylderau a phatrymau siarad yn rhwyddach os bydd y cyfieithydd yn fwy cyfarwydd ag arwyddocâd diwylliannol y geiriau a ddefnyddir.[48]

---

47 Wadensjö, C (2008) *Interpretation as Interaction.* Harlow; Addison Wesley Longman.
48 Hale, S. (2002). How faithfully do court interpreters render the style of non-English speaking witnesses' testimonies? A data-based study of Spanish-English bilingual proceedings. *Discourse Studies*, 4(1): 25–47.

Lle defnyddir gwrandawiad o bell, gellir hefyd sefydlu sawl sianel gyfieithu, gan ganiatáu i'r holl gyfranogwyr wrando ar yr iaith gwreiddiol neu'r cyfieithiad. Gall hyn fod yn bwysig i'r barnwr, a all fod angen gwrando ar lais y siaradwr er mwyn deall yn well os mai, er enghraifft, brwdfrydedd neu thymer yw'r emosiwn a gyfleir. Gall hefyd fod o fudd i'r sawl sydd yn deall peth o'r iaith wreiddiol, i allu gwrando ar hwnnw ynghyd â'r cyfieithiad. Gall hyn fod yn fuddiol er mwyn cymharu arddulliau iaith y siaradwr a'r cyfieithydd, ac i glywed yr iaith wreiddiol yn hytrach na dibynnu yn llwyr ar y cyfieithydd.

Bydd gwrandawiadau o bell hefyd yn hwyluso y teimlad bod y tyst yn rhan o'r broses, gan fod achosion wyneb i wyneb yn gallu creu ymdeimlad o unigedd os yw pawb yn gwisgo clustffonau, gan na cheir argraff bod neb yn gwrando ar y tyst.

Serch hynny, dangosodd ein ymchwiliad bod angen rhoi sylw i rai ystyriaethau mewn achosion sydd yn cynnwys cyfieithwyr, gan fod materion sydd angen eu hystyried cyn y gwrandawiad, yn ogystal â materion i ddwyn i sylw'r cyfranogwyr.

## YSTYRIAETHAU AR GYFER CYFIEITHU AR Y PRYD MEWN GWRANDAWIADAU O BELL

Dangosodd yr ymatebion i'n ymchwil y materion canlynol:

a. Mewn gwrandawiadau ar-lein, mae'n anoddach i weld y cyfranogwyr unigol, yn enwedig pan mae sgriniau wedi eu gosod ar ffurf gwedd galeri yn hytrach na gwedd siaradwr. Gan hynny, mynegodd rai o'n cyfranogwyr ei fod yn well ganddynt os oedd yr holwr a'r ymatebydd yn siarad ieithoedd gwahanol er mwyn gallu gwahaniaethu yn haws rhwng y cyfranogwyr. Serch hynny roedd cydnabyddiaeth gan y ffug-reithgor y byddai hynny'n rhwystro llif y drafodaeth rhwng y bargyfreithiwr a'r tyst, ac y byddai'n well iddynt hwy i gyfathrebu yn yr un iaith, yn enwedig gan fod siarad dwy iaith yn golygu y byddai angen wrando mewn un iaith ac ymateb mewn iaith arall. Gan hynny, er bod angen canolbwyntio helaethach, roedd yn well i'r partïon pe bai croesholi ac ymateb yn digwydd yn yr un iaith, ond wrth gwrs, fe ddibynna hyn ar allu'r bargyfreithiwr i siarad iaith y tyst.
b. Roedd y rheithwyr yn ffafrio bod camerâu y cyfieithwyr i ffwrdd, yn enwedig os oedd y rheithwyr yn gwrando gan ddefnyddio y gwedd galeri, gan bod gweld dau berson yn siarad (y siaradwr a'r cyfieithydd) yn peri dryswch.
c. Roedd yn fanteisiol i ddefnyddio cyfieithydd ar wahân i bob siaradwr, ond derbyniwyd y byddai hynny yn annhebygol o ddigwydd yn y mwyafrif o achosion oherwydd cost.
d. Yn gyffredinol, fe'i hystyriwyd yn fuddiol os oedd y cyfieithydd yn ceisio adlewyrchu tôn ac emosiwn y siaradwr. Serch hynny, mynegodd rai o'r cyfieithwyr fod yn well ganddynt fwy o niwtralrwydd yn osgo lleisiol y cyfieithydd. Fodd bynnag, mae angen ymchwil pellach ar a ddylai y cyfieithydd ddynwared y siaradwr, ac i ba raddau y mae modd cyflawni hynny yn gywir, gan y gellir camgymryd gweiddi neu siarad cyflym a'i ddehongli mewn sawl ffordd – tymer ddrwg, nerfusrwydd, neu arddull iaith arferol y siaradwr.
e. Mewn gwrandawiad ar-lein yn arbennig, mae'r ffaith bod un cyfieithydd yn cyfieithu ar gyfer tyst a bargyfreithiwr yn gallu peri dryswch ynghylch p'un sydd yn siarad. Gellir lliniaru ar y sefyllfa hon i raddau drwy i'r cyfieithydd newid eu harddull siarad er mwyn pwysleisio'r gwahaniaethau, ond oherwydd bod y sain yn dod o un ffynhonnell yn unig, a chan bod llai o fodd i'r cyfieithydd cyfeirio er enghraifft drwy osgo'r corff, llais pwy byddant yn cyfieithu, mae adnabod ai'r holwr ynteu 'r atebydd sydd yn siarad yn gallu bod yn anodd. Felly rhaid i'r barnwr a'r cyfieithydd rhoi canllawiau mwy clir ynghylch sut i gyfieithu ar gyfer holwr ac atebydd ar-lein. Un o'r awgrymiadau yn ein hastudiaeth ni oedd bod yr siaradwyr yn cael cyfarwyddid i oedi rhwng pob cyfathrebiad, ac i ganiatau i'r cyfieithydd oedi hefyd er mwyn sicrhau bod y gwrandawyr yn gallu cyfleu bod newid wedi bod yn y siaradwr.
f. Mewn gwrandawiadau lle mae sawl tyst a gyfieithir, y mae perygl y bydd y gwrandawyr yn drysu rhwng un tyst a'r llall, gan iddynt glywed un llais yn unig. Yma eto byddai cyfarwyddid i fod yn ymwybodol o hyn yn werthfawr.
g. Mewn gwrandawiadau wyneb yn wyneb, bydd presenoldeb a chyfranogiad y cyfieithydd yn

amlwg, gan iddynt fod yn bresennol yn yr ystafell, ac o'r ffaith y bydd y gwrandawyr yn defnyddio clustffonau. Fodd bynnag, mewn gwrandawiadau ar-lein bydd cyfranogiad y cyfieithydd yn llai amlwg gan na ellir eu gweld, a bydd angen atgoffa'r gwrandawyr eu bod yn gwrando ar gyfieithiad.

h. Mewn gwrandawiadau ar-lein, bydd siaradwyr hefyd yn llai ymwybodol o'r cyfieithydd, ac felly bydd angen iddynt hwy gofio sicrhau mwy o oediadau pendant rhwng cyfathrebiadau, fel bod modd i'r cyfieithydd orffen un cyfathrebiad, cyn symud i'r nesaf.

## CASGLIADAU

Dangosodd ein hastudiaeth fod gwrandawiadau o bell sydd yn cynnwys cyfieithydd yn gallu gweithio'n dda, ac fe ellir hyd yn oed bod manteision i bresenoldeb o bell y cyfieithydd. Gan hynny, ni ellir cymryd yn ganiataol bod RAID i wrandawiad ddigwydd wyneb yn wyneb lle defnyddir cyfieithydd. Fodd bynnag, ar gyfer achosion ar lein, mae ystyriaethau pellach yn angenrheidiol er mwyn sicrhau fod y gwrandawiad yn deg ar gyfer y siaradwyr (bargyfreithwyr a chyfreithwyr, tystion) ond hefyd yn hygyrch ar gyfer y gwrandawyr ( y barnwr, ac o bosib y rheithgor mewn achosion lle rhoir tystiolaeth drwy fideo), ac yn gweithredu mewn ffordd sydd yn galluogi'r cyfieithydd i gyflawni eu rôl yn effeithlon.

# Y GYMRAEG FEL IAITH Y GYFRAITH:

## Dadansoddi Deddfwriaeth trwy Gyfrwng y Gymraeg; a defnyddio'r Gymraeg yn ein Llysoedd a'n Tribiwnlysoedd

[49]Owain Rhys James

1. Gyda twf y corff o ddeddfwriaeth sydd wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol i fod yn Ddeddf gan Senedd Cymru, y mae'r gallu i ddehongli deddfwriaeth ddwy-ieithog yn cynyddu o rhan pwysigrwydd. Y ròl y Gymraeg fel iaith y gyfraith yn nawr yn fater nid yn unig o'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein llysoedd: ond hefyd yn rhan annatod o ystyr y gyfraith yng Nghymru.

### STATWS Y TESTUN CYMRAEG

2. Trwy adran 156 o Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("DLlC") y mae testun Cymraeg a Saesneg Mesur y Cynulliad neu Ddeddf y Senedd, os ydynt yn y Gymraeg ac yn y Saesneg pan y deddfwyd, i'w trin ar sail gytras.
3. Ceir darpariaeth mewn ffordd sydd yn union yr un fath, fel bod gan pob Deddf gan y Senedd neu ddeddfwriaeth eilradd Gymreig a wneir ar ôl 1 Ionawr 2020 "statws cyfartal at bob diben[50]." Gan adran 5 Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.
4. Does dim gwahaniaeth rhwng unrhyw "ddiben"(I ddefnyddio Iaith Deddf 2019) a'r "pwrpas" (I ddefnyddio Iaith Deddf 2006) pan y mae llys yn dehongli deddfwriaeth.
5. Ceir egwyddorion bras nid y dylid ei bod yn ddadleuol:

a. Nid yw'r Gymraeg yn Iaith dramor yn llysoedd Cymru a Lloegr; oedi yn y fan hynny I nodi taw un awdurdodaeth gyfreithiol sydd – sef Cymru a Lloegr. Felly rhaid;
b. Un ystyr sydd gan deddf (yn yr achos yma adrannau perthnasol y Ddeddf);
c. Yn arferol y mae'r ystyr hynny yn gyson yn *y ddwy Iaith*. Ond, nid yw hynny o reidrwydd yn wir pob tro;
d. Ceir yr ystyr hynny drwy ddehongli testun y ddwy iaith[51];
e. Nid oes trothwy, neu angen am amwysedd yn y testun, cyn y gall y Llys edr*ych ar y test*un Cymraeg gan fod y ddwy Iaith ar sail gytras;

---

49 Mae Owain Rhys James yn fargyfreithiwr yn Siambrau Civitas yng Nghaerdydd. Y mae hefyd yn ymgeisiwr PhD ym Mrhifysgol De Cymru wedi'i noddi gan Y Coleg Cymraeg.

50 Y "pwrpas" ar gyfer y bwriad yma yw dehongli deddfwrieath. Does dim gwahaniaeth felly rhwng effaith y ddwy statud ac, o'r achos, y mae unrhyw gymorth y rhofddir gan y Llys ar s156 GoWA yn gymwys I ddeddfwriaeth sy'n derbyn Cydsyniad Brenhinol ar neu wedi 1 Ionawr 2020.

51 Gweler Adroddiad Comisiwn y Gyfratih (366) Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymruar 12.2: Roeddem o'r farn mai'r man cychwyn angenrheidiol yw'r bwriad i destunau dwyieithog o ddeddfwriaeth Cymru ddwyn yr un ystyr. Roeddem o'r farn hefyd y bydd yn angenrheidiol datblygu corff o reolau sy'n ymwneud â'r dull o adnabod yr ystyr hwnnw. Ymddangosai i ni mai cadarnhau a gweithredu bwriad y ddeddfwrfa a chynnal statws cyfartal y ddwy iaith ddylai fod prif amcanion dehongli deddfwriaeth ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg.

f. Mae'r egwyddorion dehongli statudol arferol yn gymwys yn y Gymraeg fel yn y Saesneg;
g. Ni ddylid dehongli ystyr y testun Cymraeg drwy edrych ar y testun Saesneg; dylid ei ddehongli yn annibynol ac ar sail y testun Cymraeg.

6. Er bod yw'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y Llys wedi ei gyfyngu i "achosion cyfreithiol yng Nghymru"[52], mae'n rhaid ei fod yn gywir i nodi fod gan partïon hawl anatod i ddibynnu ar fersiwn y naill iaith neu'r llall o'r ddeddfwriaeth pan wrandewir ar achosion cyfreithiol.
7. Effaith ymarferol a156 DLlC yw bod yn rhaid trin y ddwy iaith yr un fath. Er ei fod yn cael ei dderbyn nad yw cydraddoldeb yn golygu fod rhaid eu trin yn union yr un ffordd o reidrwydd (hynny yw, cyfeirio at destun deddfwriaethol yn ddwy-ieithog bob tro) o fewn y cyd-destun o orfod dehongli'r Deddfwriaeth cynigir fod rhaid rhoi yr un pwysau a phwysigrwydd i'r ddwy iaith os y mae'r partïon yn cyfeirio at y ddwy iaith.
8. Os caiff trefniadau amgen eu gwneud mewn perthynas â'r testun Cymraeg, yn angenrheidiol, felly, nid yw'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar sail gytras.
9. Mae yna nifer o opsiynau ar gael i'r Llysoedd, ond gwelir rhai problemau yn codi

## BARNWR SY'N MEDRU'R GYMRAEG

10. Yr unig ffordd y gellir dehongli fersiwn Gymraeg o'r statud yn llawn, heb gymorth, yw drwy gael Barnwr sy'n medru'r Cymraeg i glywed yr holl hawliad (neu ran ohono[53]).
11. Dim ond rhywun sydd yn medru'r Gymraeg yn ddigonol i ddehongli'r testun yn annibynol all feddu ar yr arbenigedd ieithyddol a chyfreithiol sy'n ofynnol. Mae'r broses ddehongli, wrth ei wraidd, yn swyddogaeth farnwrol. O reidrwydd yr unig ffordd o sicrhau bod y broses yn cael ei chynnal yn briodol, felly, yw i'r mater gael ei glywed gerbron Barnwr sy'n siarad Cymraeg.
12. Ni all cyfieithiad llythrennol adlewyrchu strwythur cystrawennol y ddwy iaith yn iawn, ac felly'r rhesymau pam y gall trefn geiriau'r testun Cymraeg fod yn wahanol. Mae'r geiriau, a'u trefn, yn bwysig: a'i cyfleu ystyr arbennig y gwneir, neu a'i strwythur gramadegol neu gystrawennol sydd ar waith. Heb wybod a deall hynny, ni all Llys ddeall ei ystyr. Felly, nid yw mewn sefyllfa i ddehongli'r Ddeddf.
13. Mae'n fater o bwys bod Comisiwn y Gyfraith (yn ei adroddiad ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru) wedi datgan nad yw'n ffafrio creu ròl ar gyfer personel nad ydynt yn farnwyr yn y broses ddehongli. Yn y casgliad nodir:
    *We conclude that, in the circumstances where an issue of possible divergence of the language versions arises, the solution is for rules of court to require a party to give advance notice of an intention to raise such an issue. The case should be listed before an appropriate Welsh speaking judge.*[54]

## TYSTIOLAETH ARBENIGWR

14. Un opsiwn fyddai i'r partïon, neu'r Llys o'i wirfodd, gael tystiolaeth arbenigol ar ystyr y testun.
15. Nid yw deddfwriaeth amlieithog yn ffenomen newydd nac unigryw (er, y gwahaniaeth yng Nghymru wrth gwrs yw bod y ffynhonnell yn gwbl ddomestig). Fodd bynnag, mae'n parhau'n aneglur pryd y gallai tystiolaeth arbenigol fod yn dderbyniol, neu pryd y mae ei angen. [55]Yn yr un modd, mewn achosion lle mae'n ofynnol i'r Llys ddehongli geiriau cytundebol mewn iaith dramor gall fod angen am dystiolaeth arbenigol[56] .

52 Adran 22 Deddf yr Iaith Gymraeg 1998; Williams v. Cowell [2000] 1 WLR 187
53 Gweler Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, ibid., ar 12.53.
54 Ibid at 12.56
55 Gweler Bennion on Statutory Interpretation (7th Ed.) at 24.16.
56 Gweler Chitty on Contracts (33rd Ed.) at 13.31 and *Shore v Wilson (1842) 9 Cl. & Fin 355, 555-556*; *Di Sora v Phillips (1863) 10 H.L. Cas. 624, 633, 638*.

16. Fodd bynnag, cynigir y byddai troi at dystiolaeth arbenigol ar fater yr ystyr yn ddiffygiol. Nid iaith dramor mo'r Gymraeg. Mae yna feirniaid sy'n siarad Cymraeg ar gael. Cynigir bod caniatáu tystiolaeth arbenigol fyddai'n disodli'r swyddogaeth farnwrol honno, ym mhob amgylchiad, yn gamgymeriad.
17. Gan ei fod yn swyddogaeth farnwrol, ac er gwaethaf y ffaith y byddai'r penderfyniad ei hun yn y pen draw yn un i'r Llys ei hun ei wneud, effaith ymarferol caniatáu tystiolaeth arbenigol fyddai trawsfeddiannu rôl y Barnwr. Byddai'n anodd, os nad amhosibl, gwahaniaethu rhwng cwestiynau ffeithiol ieithyddol, a chwestiynau cyfreithiol dehongli.
18. Mae'n annirnadwy y byddai tystiolaeth arbenigol yn cael ei chaniatáu ar fater ystyr unrhyw statud Saesneg ei hiaith.. Mae hynny'n ateb y cwestiwn a yw'r dull hwnnw'n gosod y ddwy iaith ar sail gyfartal: nid ydyw.

## CYFIEITHYDD AR Y PRYD

19. Rôl cyfieithydd ar y pryd yw cyfieithu'r hyn a dywedir yn y Llys. Rôl ieithyddol yn unig yw hon. Nid yw'n gofyn am unrhyw arbenigedd gyfreithiol. Y ddealltwriaeth gyfreithiol honno sy'n hanfodol i'r swyddogaeth farnwrol o ddehongli statudol. Mae'n dilyn nid yn unig ei bod yn annymunol fel mater o egwyddor i gyfieithydd ar y pryd gynorthwyo'r Llys ar fater o ystyr ond, nad oes ganddo'r gallu i wneud hynny.[57].
20. Mae'n amhriodol i rôl cyfieithydd ar y pryd mewn unrhyw achos lle defnyddir testun Cymraeg statud gynnwys cyfieithu'r testun hwnnw. Byddai'n anghywir i'r Llys gymryd yn ganiataol bod geiriau'r cyfieithydd ar y pryd yn adlewyrchu ystyr y testun Cymraeg.
21. Yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Mewnfudo a Lloches), er enghraifft, mae ffiniau'r rôl yn glir. Ni cheir ymestyn rôl y cyfieithydd ar y pryd i gynnwys rhoi, neu ofyn iddynt roi, tystiolaeth ar fater a ddadleuir yn ei gylch[58] . Eu rôl yw cyfieithu ar gyfer y Llys neu'r Tribiwnlys[59].

## CYFIEITHIAD WEDI EI GYTUNO

22. Mewn amgylchiadau cyfyngedig yn unig y gall cyfieithiad cytunedig o'r testun Cymraeg fod yn briodol: sef lle mae'r ddwy ochr yn cytuno bod y testun Saesneg a Chymraeg yn golygu rhywbeth gwahanol, a'u bod yn cytuno ar yr ystyron priodol. Y mater wedyn yw pa ddull ddylai'r Llys ei fabwysiadu wrth sefydlu gwir ystyr y statud.
23. Er hynny, rhaid cymryd gofal er mwyn sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal pan fydd y Llys, er enghraifft, yn asesu eglurder cymharol y ddau destun.
24. Er mwyn trin y ddwy iaith yn gyfartal mae'n dilyn y dylai'r Llys, fel mater o egwyddor, dderbyn cyfieithiad llythrennol o'r testun Saesneg i'r Gymraeg. Byddai peidio a gwneud hynny yn golygu gosod y ddwy iaith ar sail anghyfartal. Cyflwynir y byddai caniatáu i'r partion ail-eirio'r testun Saesneg yn hynod iawn (â phob Barnwr sy'n siarad Cymraeg wrth gwrs hefyd yn medru'r Saesneg). Byddai CyG yn mynd mor bell a dweud ei bod yn anodd dirnad caniatáu'r fath beth.
25. Ar unrhyw achos, beth fyddai'n digwydd fyddai priodoli ystyr i'r geiriau neu'r ymadroddion Saesneg. Mae hynny'n amlwg yn anghywir. Mae ystyr y testun Cymraeg yn deillio o'i destun ei hun ac o reidrwydd mae angen ei ddehongli yn ei rinwedd ei hun.

---

57 Nid yw hynny yw, wrth gwrs, i ddweud na all gyfieithwyr ar y pryd hefyd feddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i weithredu fel cyfieithwyr arbenigol mewn capasiti gwahanol.

58 Gweler AA (Language diagnosis: use of interpreters) [2008] UKAIT 29 https://tribunalsdecisions.service.gov.uk/utiac/2008-ukait-29

59 Mohamed (role of interpreter) [2011] UKUT 337 https://tribunalsdecisions.service.gov.uk/utiac/2011-ukut-337

## ASESYDD WEDI EI BENODI GAN Y LLYS

26. Fe all yr Uchel Lys Apwyntio asesydd *"if it thinks it expedient to do so"* ac i *"hear and dispose of the cause or matter wholly or partially with their assistance"* (adran 70, Deddf y Llysoedd Uwch 1981). Y mae'r ddarpariaeth honno'n gymwys i'r Llys Apêl (section 54 (8)). Fel ag y mae hefyd yn y Goruchaf Lys (adran 44 o'r Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005).
27. Gwneir darpariaeth benodol i'r Llys ystyried penodiad o'r fath ar sail iaith yn y Cyfarwyddyd Ymarfer ar Faterion Datganoli.[60] Fel gyda thystiolaeth arbenigol, er hynny, effaith penodi asesydd yw bod rôl farnwrol dehongli statud yn cael ei rhoi i'r asesydd. . Mae'r pwyntiau a wnaed uchod ynglŷn â thystiolaeth arbenigol yn cael eu hailadrodd yma.

## CYMORTH STATUDOL

28. *Mae'n werth nodi bod a156 (2) DLlC*[61] *yn darparu'n benodol ar gyfer drygioni gair neu ymadrodd nad yw'n gyfieithiadwy:*
*(2)The Welsh* Ministers may by order provide in respect of any Welsh word or phrase that, when it appears in the Welsh text of any Assembly Measure or Act of the Assembly, or any subordinate legislation made under an Assembly Measure or Act of the Assembly or by the Welsh Ministers, it is to be taken as having the same meaning as the English word or phrase specified in relation to it in the order.
29. Mae gorchymyn o'r fath yn gymwys i ddeddfiadau a wneir gan y Senedd yn ddarostyngedig i unrhyw beth i'r gwrthwyneb a gynhwysir yn y deddfiad (a156(4)). Mae hynny'n arwyddocaol. Mae'r Senedd wedi rhoi ateb penodol i sefyllfa lle nad yw'n bosibl, fel mater o iaith, i'r ddau destun ddarllen yr un peth. Gan nad oes Gorchymyn o'r fath mewn perthynas ag unrhyw ran o a50 o'r Ddeddf y mae'n rhaid i'r Llys fynd rhagddi ar y sail bod y Ddeddf yn ddarostyngedig i'r rheolau dehongli arferol

## R (DRIVER) V RCTCBC [2020] EWCA CIV 1759

30. Fe ellir dadlau fod penderfyniad y Llys Apêl yn achos Driver wedi cwympo yn fyr o'r hyn sydd wedi ei nodi uchod. Er fod yna ddatganiad clir o egwyddor gan y Llys sy'n ei gwneud yn glir fod y Gymraeg a'r Saesneg yn gytras, nid yw'n glir taw dyna oedd dyfarniad y Llys yn yr achos hynny yn ei wneud.
31. Ym mharagraff 12 fe nodwyd y Canghellor:

*12. "The aim of interpreting legislation is to determine the intention of the legislature. Where legislation is enacted in two languages of equal standing, and the parties submit that there is, or may be, a conflict, difference or distinction between the two language versions, detailed analysis of each version may be necessary. Where it is not suggested that the different language versions differ in meaning, the court can be sure that either version reflects the intention of the legislature. Counsel for the Welsh Language Commissioner accepted that this was the position. The approach is also consistent with the principle of ensuring equal standing for both languages, and accords with the position adopted by the Law CommissionWe accept that there may be cases where it would be highly desirable for the court to have Welsh language expertise. In this case, however, we did not feel we were handicapped in deciding the question of construction that arose. The court was able to engage in oral debate with counsel about the proper meaning of the Welsh text. The questions of interpretation of the Welsh text of section 50 that arose were accessible to non-Welsh speakers, as the judge's judgment at first instance amply demonstrated. We agree that the use of expert evidence or translations of the Welsh language is inadequate. The court must engage with the Welsh text and Welsh rules of syntax. But we believe, as this judgment will demonstrate, that we have been able to do so fully and competently in this case."*

---

60 Paragraff 12.2

61 Ceir mesur debyg yn unol ag adran 6 Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Mae Atodiad I'r Ddeddf yn difynnu geiriau ac ymadroddion. Mae'r ddddf yn gymwys at statudau ag effaith wedi 6 Fai 2020 ac felly nid yw yn gymwys I'r Ddeddf gerbron y Llys yn yr achos yma.

32. Er hynny, ym mharagraff 14, fe benderfynwyd y Llys and oedd angen barnwr oedd yn medru'r Gymraeg. Fe nodwyd:

*14 In this case, however, we did not feel we were handicapped in deciding the question of construction that arose. The court was able to engage in oral debate with counsel about the proper meaning of the Welsh text. The questions of interpretation of the Welsh text of section 50 that arose were accessible to non-Welsh speakers, as the judge's judgment at first instance amply demonstrated. We agree that the use of expert evidence or translations of the Welsh language is inadequate. The court must engage with the Welsh text and Welsh rules of syntax. But we believe, as this judgment will demonstrate, that we have been able to do so fully and competently in this case.*

33. Ymhellach:

*15 We do not rule out the possibility that there may be other cases where greater levels of Welsh language expertise within the court would be desirable. But there will also be many cases where it is not imperative. There will be a spectrum from the simple construction of one word or a short sub-section or phrase on the one hand, to the need to delve into an entire Welsh language statutory regime on the other hand. This case is at one end of that spectrum and we have felt confident that the comprehensive submissions we received as to the proper construction of the Welsh text have enabled us to apply the rules we have set out, and reach an appropriate conclusion, according equal status to both texts as the legislation requires."*

## CASGLIAD

34. Swyddogaeth farnwrol yw dehongli testun statudol: barnwr sy'n medru'r Gymraeg yn ddigonol i ddeall ystyr y testun yn annibynol yw'r unig wir ffordd o barchu'r testun yn ddwy-ieithog. Y mae hi'n anodd gweld sut y gall ddadl gyfreithiol gyfleu ystyr testun statudol mewn iaith arall. Er ei fod yn wir i nodi fod yna sbectrwm, anodd iawn yw gweld sut all yna fod achos lle and oes angen unrhyw Gymraeg (nac unrhyw gymorth ieithyddol, er yn annymunol am y rhesymau a rhoddir uchod) ar farnwr I ddehongli deddfwriaeth.
35. Gyda mwy a mwy o achosion yn ymdrin a deddfwriaeth y Senedd, ac hynny yn cynyddu mewn meysydd cyfreithgar fel cyfraith cyhoeddus a tai, y mae'n anochel y bydd y llysoedd yn wynebu'r problemau yma eto. Diddorol bydd gweld pa drywydd y bydd y llysoedd yng Nghymru yn ei cymryd ac os y bydd y llysoedd Uwch yn rhoi mwy o gyngor yn y blynyddoedd i ddod.